Wales Office
Swyddfa Cymru

# Swyddfa Cymru

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14

Wales Office
Swyddfa Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013–14

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014)

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin
yn unol ag Adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau
a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Dŷ'r Cyffredindrwy
Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon
i Dŷ'r Arglwyddi Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

**Gorchmynnwyd eu hargraffu gan Dŷ'r Arglwyddi**

DYDDIAD: 26 Mehefin 2014

HC 37

Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o gyhoeddiadau Adrannol sydd, ynghyd â'r Main Amcans 2014-15, y ddogfen Public Expenditure: Statistical Analyses 2014, a'r Supply Amcans 2013-14: Supplementary Budgetary Information, yn dangos alldro'r Llywodraeth ar gyfer 2013-14 a'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2014-15.

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v.2. Gallwch weld y drwydded hon yn http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu drwy anfon neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Os ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen cael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.gov.uk/government/publications

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn, dylech eu hanfon atom yn wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.walesoffice.gov.uk

Print ISBN 9781474106993
Web ISBN 9781474107006

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group
Ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau a ailgylchwyd.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1** | **Rhagair gan y Gweinidog** | **1** |
| **Pennod 2** | **Cyflwyniad y Cyfarwyddwr** | **3** |
| **Pennod 3** | **Adroddiad Strategol** | **4** |
| **Pennod 4** | **Adroddiad y Cyfarwyddwyr** | **20** |
| **Pennod 5** | **Adroddiad Tâl** | **30** |
| **Pennod 6** | **Datganiad ar Lywodraethu** | **39** |
| **Pennod 7** | **Datganiad o Gyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu** | **51** |
| **Pennod 8** | **Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ’r Cyffredin** | **52** |
| **Pennod 9** | **Cyfrifon** | **57** |
| | Datganiad o Gyflenwad Seneddol | |
| | Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | |
| | Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol | |
| | Datganiad o Lifau Arian | |
| | Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr | |
| | Nodiadau i’r Cyfrifon | |

**Atodiad 1 Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus** **92**

# 1 Rhagair y Gweinidog

Dyma fy ail adroddiad blynyddol a chyfrifon fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae'n fraint o hyd cael cynrychioli Cymru yn y Llywodraeth wrth fwrdd Cabinet y DU. Drwy gydol y flwyddyn rwyf wedi parhau i hybu buddiannau Cymru, gartref ac yn rhyngwladol.

Dangoswyd yn ddiweddar pa mor benderfynol yr ydym i wella seilwaith Cymru drwy ein hymrwymiad i sicrhau pecyn ariannol i alluogi Llywodraeth Cymru i wneud gwaith uwchraddio hir ddisgwyliedig ar draffordd yr M4. Bydd hyn yn helpu i hybu twf economaidd yn Ne Cymru. Seilwaith a'r economi, fel y dengys ein Cynllun Busnes, yw prif flaenoriaethau fy Adran. Ni ddylem ddiystyru'r buddsoddiad sydd ar waith eisoes, gyda Chymru'n arwain y Deyrnas Unedig wrth gyflenwi band eang cyflym iawn ledled y wlad.

Mae trydaneiddio'r rheilffordd yn parhau'n flaenoriaeth. Rydym eisoes wedi ymrwymo i drydaneiddio prif lein y Great Western ac rydym yn gweithio â'r Adran Drafnidiaeth ar gyfleoedd i sicrhau gwelliannau yng Ngogledd Cymru. Bydd gweithredu'r HS2, fel y dengys yr adroddiad diweddar gan Syr David Higgins, yn helpu i gryfhau cysylltiadau rheilffordd Gogledd Cymru ymhellach gyda chanolfan newydd arfaethedig yn Crewe.

Mae gwella rhagolygon cyflogaeth yn allweddol i dwf economaidd yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn, bûm yn cynnal nifer o Uwchgynadleddau Swyddi ledled Cymru i dynnu sylw at y cyfleoedd sydd ar gael i'r sawl sy'n chwilio am waith. Gwnaethpwyd hyn mewn partneriaeth â Chanolfan Byd Gwaith, sy'n gweithredu ein polisïau lles yn effeithlon iawn ar lawr gwlad. Mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi cydweithio i fwrw ymlaen â gwaith yr uwchgynadleddau. Gan adeiladu ar hyn, mae Prif Weinidog Cymru a minnau'n arwain gweithgor, gyda chymorth yr Adran Gwaith a Phensiynau, ar ddiwygio polisïau cyflogaeth ehangach.

Rwyf yn manteisio ar bob cyfle i gynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Mae economïau De Ddwyrain Asia'n rhai enfawr ac maent yn cynnig cyfleoedd pwysig i fusnesau Cymru. Mae fy ymweliad diweddar â Malaysia ac Oman wedi dangos cryfder brand addysg uwch y DU a'r cyfleoedd sydd ar gael i hyrwyddo ein cynnyrch, ein sgiliau a'n profiad yn fyd-eang.

Mae cyfleoedd yn bodoli hefyd i Gymru wneud mwy o fusnes â'n partneriaid Ewropeaidd, fel yr amlygwyd mewn derbyniad busnes ym Mharis a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Llysgennad Ei Mawrhydi yn Ffrainc ac UKTi.

Eleni, cyflwynais Fil Cymru gerbron y Senedd, a fydd yn datganoli pecyn o bwerau treth a benthyca i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru,

ac yn gweithredu mwyafrif yr argymhellion a wnaethpwyd gan y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) yn ei adroddiad cyntaf. Bydd y pwerau'n helpu i wneud y sefydliadau datganoledig yn fwy atebol i'r bobl sy'n eu hethol, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i fuddsoddi yn seilwaith allweddol Cymru. Mae sicrhau bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn diwedd y Senedd hon yn flaenoriaeth i'r Adran am y flwyddyn sy'n dod.

Eleni hefyd gwelwyd Comisiwn Silk yn cyhoeddi ei ail adroddiad, ar bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddwn yn edrych yn ofalus ar argymhellion y Comisiwn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Llwyddodd Swyddfa Cymru i leihau ei chostau rhedeg yn sylweddol yn ystod y flwyddyn, ac rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o leihau ein costau ymhellach. Er enghraifft, rydym yn rhannu mwy o'n gwasanaethau ag Adrannau eraill y Llywodraeth ac wedi prydlesu gofod dros ben yn ein swyddfa yn Llundain.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i holl staff ymroddedig Swyddfa Cymru am eu gwaith caled a'u hymroddiad, a hefyd i Stephen Crabb AS a'r Farwnes Randerson am eu cyfraniadau cyson a gwerthfawr fel Is-ysgrifenyddion Gwladol yn yr Adran.

**Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

# 2 Datganiad y Cyfarwyddwr

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa Cymru ar gyfer 2013–14.

Bu'n flwyddyn eithriadol arall i Gymru ac i Swyddfa Cymru. Rydym wedi cyhoeddi ar ffurf drafft, ac yna wedi cyflwyno'r Bil Cymru cyntaf ers 8 mlynedd; Bil a fydd yn datganoli pecyn sylweddol o bwerau treth a benthyca i Gymru. Cawsom hefyd ail adroddiad Comisiwn Silk, a bydd llawer o'n gwaith yn ystod 2014–15 yn cael ei neilltuo iddo. Yn ychwanegol at ein gwaith cyfansoddiadol, rydym wedi parhau i roi blaenoriaeth uchel i ymdrechion i wella economi Cymru, yn enwedig drwy seilwaith a mewnfuddsoddi. Mae ein llwyddiant i ymdopi â chymaint o ymgymeriadau mawr ar adeg pan mae ein maint a'n costau'n lleihau yn adrodd cyfrolau am ansawdd ac ymroddiad staff Swyddfa Cymru. Rwyf yn parhau'n ddiolchgar iddynt am eu cefnogaeth a'u hymdrechion diwyro.

**Glynne Jones**
**Cyfarwyddwr**

# 3 Adroddiad Strategol

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i adeiladu ar lwyddiannau blaenorol ac wedi cyflawni dros Gymru mewn nifer o feysydd. Mae cryfhau economi Cymru a hybu twf wedi bod yn thema ganolog yn ein gwaith drwy gydol eleni. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r newyddion economaidd wedi gwella yn sgil y twf economaidd cryfaf ers 2007 ac rydym wedi gweld mwy o bobl mewn gwaith nag ar unrhyw adeg yn ein hanes.

Mae Swyddfa Cymru wedi bod yn flaenllaw wrth hyrwyddo'r cyfleoedd i fusnesau ehangu a thyfu mewn Mawrthnadoedd cartref a rhyngwladol. Drwy hybu gwasanaethau Masnach a Buddsoddi y DU i dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael ar gyfer ymchwil ac arloesi neu fenthyciadau i fusnesau newydd, mae'r Swyddfa wedi sicrhau bod busnesau Cymru'n manteisio ar bob cyfle i lwyddo ac i ehangu.

Gan ein bod wedi annog busnesau i ehangu a buddsoddi, mae'r Llywodraeth wedi bod yn buddsoddi yn asedau seilwaith Cymru. Roedd datblygu seilwaith sy'n addas ar gyfer economi fodern yn thema allweddol, gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud ar werthuso'r anghenion seilwaith drwy gyfrwng Gweithgor Seilwaith newydd Swyddfa Cymru. Mae'r cyhoeddiadau wedi cynnwys y carchar £250 miliwn yn Wrecsam, buddsoddiad pellach mewn seilwaith band eang a chytundeb i weithio â Hitachi a Horizon i helpu i ariannu adeiladu gorsaf pŵer niwclear newydd yn Ynys Môn.

Prif fuddiannau ein buddsoddiad yw cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a swyddi cysylltiedig. Drwy uwchgynadleddau swyddi, a chyd-weithgor newydd â Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae Swyddfa Cymru yn sicrhau bod y sawl sy'n chwilio am waith yn cael y cymorth angenrheidiol gan y ddwy lywodraeth i fynd i'r afael â phroblem hanesyddol bod heb waith yng Nghymru.

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i ariannu a chefnogi'r Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru ('Comisiwn Silk') a gwblhaodd ei waith ym mis Mawrth 2014 drwy gyhoeddi ei adroddiad Rhan II. Gwnaeth y Comisiwn 61 o argymhellion i wella'r setliad datganoli yng Nghymru ac mae Swyddfa Cymru yn awr yn gweithio ag Adrannau i asesu'r argymhellion hyn a'u goblygiadau.

Mae Swyddfa Cymru wedi chwarae rôl allweddol drwy gydlynu ymateb y Llywodraeth i argymhellion Rhan I y Comisiwn ar ddatganoli ariannol i Gymru. Ymatebodd y Llywodraeth ar 18 Tachwedd, ar ôl ymgynghori ymhellach ar ddatganoli treth dir y dreth stamp yn ystod yr haf, a derbyniwyd bron y cyfan o argymhellion y Comisiwn.

Cafodd Bil Cymru, sy'n rhoi'r rhan fwyaf o argymhellion Rhan I y Comisiwn ar waith, ei gyhoeddi fel drafft ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu ar 18 Rhagfyr ac fe'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mawrth. Mae'r Bil hefyd yn gweithredu tri o'r pedwar cynnig y bu Swyddfa Cymru yn ymgynghori arnynt yn ei Bapur Gwyrdd yn 2012 ar drefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n gweithredu nifer o newidiadau eraill yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdanynt. Cafodd y Bil ei Ail Ddarlleniad ar 31 Mawrth a bydd yn parhau â'i daith Seneddol yn ystod y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi bod mor drylwyr ag arfer wrth sicrhau bod deddfwriaeth y DU yn adlewyrchu anghenion Cymru'n llawn a'i bod yn gydnaws â'r setliad datganoli. Roedd gan nifer o filiau yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth oblygiadau i Gymru, ac rydym wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu deddfwriaeth megis y Bil Dŵr, y Bil Mewnfudo a'r Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona.

# Mae Cynllun Busnes Swyddfa Cymru yn gosod tri amcan ar gyfer ein Gwaith:

## *Amcan 1: Hyrwyddo economi Cymru a buddiannau economaidd Cymru*

***Ymgysylltu â Busnes***

Cyfarfu Grŵp Cynghori Busnes yr Ysgrifennydd Gwladol dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac mae'n parhau i sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth fanwl o amodau economaidd Cymru. Hefyd, amlinellodd y Grŵp ei flaenoriaethau ar gyfer Datganiad yr Hydref a'r Gyllideb, bu'n trafod sut y gall Cymru elwa fwy ar gynlluniau Llywodraeth y DU a sut y gall busnesau feithrin cysylltiadau mwy cynhyrchiol â'r sector addysg uwch.

Roedd hyrwyddo cymorth Llywodraeth y DU, yn benodol yr hyn sydd ar gael gan Fasnach a Buddsoddiad y DU (UKTI), yn thema flaenllaw mewn derbyniadau busnes a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn. Bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn annog cynrychiolwyr i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael mewn Mawrthnadoedd rhyngwladol sy'n tyfu ac i wneud y gorau o arbenigedd a chyrhaeddiad byd-eang UKTI.

Er mwyn tynnu sylw at y cyfleoedd sy'n bodoli'n rhyngwladol, cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol sesiwn friffio hefyd ochr yn ochr ag UKTI a Llysgennad Prydain yn Ffrainc yng nghartref swyddogol y Llysgennad ym Mharis i hyrwyddo'r farchnad Ffrengig i fusnesau Cymru.

Roedd y digwyddiad yng nghartref swyddogol y Llysgennad Prydeinig yn dilyn ymweliadau'r Ysgrifennydd Gwladol â Sioe Awyr Paris ym Mehefin ac ymweliad â Toulouse ym mis Hydref ble cyhoeddodd yr ail alwad am y National Aerospace Technology Exploitation Programme, sy'n galluogi mwy o gwmnïau i ymgeisio am gyfran o'r £40 miliwn o gyllid sydd ar gael i hybu technolegau ar gyfer cynnyrch neu brosesau gweithgynhyrchu newydd.

Yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd ym Mawrthnadoedd yr Undeb Ewropeaidd (UE), bu'r Ysgrifennydd Gwladol ar sawl taith fasnach ryngwladol i hybu busnesau Cymreig mewn Mawrthnadoedd newydd. Roedd y rhain yn cynnwys Singapôr ac Indonesia a'r Ysgrifennydd Gwladol oedd y Gweinidog cyntaf o Gabinet y DU i fod yn bresennol ac i annerch Fforwm Democratieth Bali.

Ym mis Chwefror bu'r Ysgrifennydd Gwladol ar daith fasnach a diplomyddol i Falaysia ac Oman. Yn ystod ei ymweliad cyfarfu'r Ysgrifennydd Gwladol ag arweinwyr busnes pwysig i adeiladu ar gysylltiadau busnes cyfredol a newydd, yn ogystal ag edrych ar gyfleoedd eraill i gwmnïau a sefydliadau o'r DU i weithredu yn y rhannau hynny o'r byd.

Hefyd, croesawodd yr Ysgrifennydd Gwladol ddirprwyaeth o Lysgenhadaeth Indonesia ar ymweliad â Gogledd Cymru i alluogi busnesau yng Nghymru i hyrwyddo'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig ac i edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael yn yr economïau sy'n tyfu gyflymaf yn y byd.

***Seilwaith***

Mae gwella seilwaith Cymru yn flaenoriaeth bwysig i helpu i annog twf economaidd. Nid yn unig y mae buddsoddi mewn seilwaith yn creu swyddi yn ystod y gwaith adeiladu ond mae hefyd yn cynnal swyddi pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Mae gwella ein hasedau seilwaith hefyd yn cynorthwyo busnesau cynhenid ac yn gwneud Cymru'n gyrchfan fwy deniadol i fewnfuddsoddiad.

I gydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn seilwaith Cymru, dechreuodd gweithgor seilwaith newydd y Gweinidog ar ei waith ym mis Mehefin. Mae aelodau'r grŵp yn cynrychioli buddiannau seilwaith cyffredinol yng Nghymru ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru i gydnabod y cydweithio sydd ei angen i roi sylw i anghenion seilwaith Cymru. Mae'r grŵp wedi cwrdd deirgwaith ac mae wedi trafod materion sy'n cynnwys anghenion seilwaith trafnidiaeth, y cyfleoedd sydd ar gael i Gymru yn sgil seilwaith ynni a'r gwahanol opsiynau ar gyfer ariannu anghenion seilwaith Cymru yn y dyfodol, megis Cynllun Gwarantau £40 biliwn Llywodraeth y DU. O ganlyniad mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi hyrwyddo Cynllun Gwarantau'r DU ymhlith busnesau mewn brecwast busnes o dan ofal Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI).

Fel noddwyr swyddogol London International Shipping Week y Llywodraeth, bu Swyddfa Cymru hefyd yn codi proffil porthladdoedd Cymru ac yn tynnu sylw at eu pwysigrwydd i economïau Cymru a'r DU drwy bresenoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol mewn nifer o ddigwyddiadau proffil uchel. Bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnal digwyddiad yn Swyddfa Cymru gyda Stephen Hammond AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth.

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru hefyd wedi bod ar flaen y gad i ddenu rhagor o fuddsoddiad yn seilwaith trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys trydaneiddio'r rheilffordd yn Ne Cymru. Mae'r buddsoddiad yn High Speed (HS2) yn cryfhau'r ddadl dros drydaneiddio prif lein Gogledd Cymru ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi codi'r mater hwn â Chadeirydd HS2 Ltd a Chadeirydd Tasglu Twf HS2. Hefyd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cwrdd ag arweinwyr cynghorau a busnesau lleol i drafod datblygiad yr achos busnes dros drydaneiddio yn ogystal â chysylltiadau rheilffordd trawsffiniol eraill. Bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymweld â Therminws 2 Heathrow, a oedd yn gyfle i hyrwyddo'r buddsoddiad o £500 miliwn gan Lywodraeth y DU yng Nghynllun Mynediad Rheilffordd y Gorllewin a fydd yn creu cysylltiad uniongyrchol rhwng de Cymru a'r maes awyr erbyn 2021.

Ym mis Tachwedd, cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn cael pwerau benthyca'n gynnar i fuddsoddi mewn gwelliannau i draffordd yr M4 yn Ne Cymru, a hynny cyn datganoli pwerau benthyca cyfalaf newydd a oedd wedi'u cynnwys gan y Llywodraeth ym Mil Cymru. Bydd y pwerau benthyca cynnar yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddechrau ar y gwaith uwchraddio ar yr M4 ar gyrion Casnewydd y bu cymaint o alw amdano cyn gynted â phosibl.

Mae Swyddfa Cymru yn parhau i annog buddsoddiad yn y Sector Ynni. Yn ogystal â chwrdd â rhanddeiliaid allweddol megis RWE, Vatenfall, Ynys Ynni Môn, Valero, a Chymdeithas Diwydiant Petrolewm y DU (UKPIA), traddododd yr Ysgrifennydd Gwladol y brif araith mewn digwyddiad 'Cymru yn Llundain', ble bu'n amlinellu maint yr her ynni sy'n wynebu'r DU. Gyda disgwyl i 20 y cant o'n gallu cynhyrchu ynni ddod i ben erbyn 2020, a'r defnydd o ynni'n parhau i godi, cafwyd neges glir gan yr Ysgrifennydd Gwladol – nid yw aros yn ein hunfan yn opsiwn. Daw cyfle newydd gyda phob her, ac mae gan fusnesau yng Nghymru lawer i'w ennill os gallant helpu i ddenu'r symiau hanesyddol o fuddsoddiad y bydd ei angen yng Nghymru a ledled y DU.

Wrth gwrs, y prosiectau ynni pwysicaf o hyd yw'r orsaf pŵer niwclear newydd yn Wylfa, Ynys Môn a fydd yn arwain at fuddiannau sylweddol i'r economi yng Nghymru drwy gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a swyddi o ansawdd uchel. Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i gefnogi'r buddsoddiad a wneir yma gan Hitachi. Ym mis Ebrill cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol dderbyniad ym mhorthladd Caergybi ar fwrdd yr HMS St Albans ar gyfer cynrychiolwyr Hitachi, Ynys Ynni Môn, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Datblygu Niwclear a rhanddeiliaid a busnesau lleol. Ym mis Awst bu'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Gwladol dros Fusnes ac Ynni yn ymweld â Wylfa a Choleg Menai, i weld drostynt eu hunain y cynnydd sy'n cael ei wneud, ac ym mis Rhagfyr cafwyd cyhoeddiad fod Llywodraeth y DU wedi llofnodi cytundeb â Hitachi a Horizon i gynorthwyo i gyllido gorsaf pŵer niwclear newydd drwy warant y DU, yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy terfynol a chymeradwyaeth gweinidogion.

Mae disgwyl i Gymru elwa hefyd yn sgil rhagor o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU fel rhan o'n cynlluniau i gael gwared ar garchardai hen ac aneffeithlon ac adeiladu cyfleusterau newydd modern i gymryd eu lle. Disgwylir y bydd y buddsoddiad o £250 miliwn yn Wrecsam yn creu buddiannau economaidd sylweddol ac amcangyfrifir y bydd £23 miliwn yn cael ei fuddsoddi'n lleol bob blwyddyn pan fydd y carchar yn weithredol gan y bydd yn cynnal oddeutu 1,000 o swyddi.

Er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau lleol yn ystod y gwaith o adeiladu'r carchar, bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn arwain digwyddiad ymgysylltu â chyflenwyr lleol ym mis Ionawr, gan gwrdd â dros 250 o Fusnesau Bach a Chanolig a oedd wedi dangos diddordeb mewn cynnig am gontractau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r carchar newydd.

Eleni hefyd cyrhaeddwyd carreg filltir nodedig wrth sicrhau bod gan fusnesau a chartrefi yng Nghymru fynediad at fand eang cyflym iawn. O ganlyniad i fuddsoddiad Llywodraeth y DU mewn band eang yng Nghymru mae gan dros 100,000 o gartrefi a busnesau yng Nghymru fynediad ato erbyn hyn. Rydym yn awr wedi darparu £69 miliwn i Lywodraeth Cymru i gyflenwi'r prosiect Cyflymu Cymru yng Nghymru.

Er mwyn cynorthwyo busnesau ymhellach roedd 'Sadwrn Busnesau Bach' ym mis Rhagfyr hefyd yn nodi lansio'r cynlluniau talebau dinasoedd cysylltiedig yng Nghaerdydd a Chasnewydd, sy'n c ynnig cymorth holl bwysig i alluogi busnesau i gysylltu â'r seilwaith band eang cyflym iawn yn yr ardaloedd hyn.

Ym mis Tachwedd traddododd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, y Farwnes Randerson, y brif araith yng Nghynhadledd Cynghrair Twristiaeth Cymru, a oedd yn ategu gwaith Swyddfa Cymru i hyrwyddo Cymru fel lle "GWYCH" i ymweld ag ef. Er bod diwylliant a thwristiaeth yn faterion datganoledig yn bennaf, mae'n faes ble gall Cymru elwa'n fawr drwy gydweithio clos rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru. Gan annog y diwydiant yng Nghymru i gydweithio i gynyddu eu cyfran o'r Mawrthnadoedd tramor, pwysleisiodd hefyd y potensial enfawr i Gymru ragori os yw'n manteisio ar ei hasedau – er enghraifft, Traphont Pontcysyllte, safle Treftadaeth y Byd (UNESCO) diweddaraf Cymru.

### *Cael pobl yn ôl i Waith*

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweld mwy o bobl mewn gwaith yng Nghymru nag ar unrhyw adeg yn ein hanes. Gydag anweithgarwch economaidd yn gostwng i lefelau is nag erioed a'r gyfradd ddiweithdra'n gostwng yn is na chyfartaledd y DU mae'n amlwg bod yr adferiad economaidd wedi cydio yng Nghymru.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i helpu mwy o bobl yn ôl i waith ac mae Swyddfa Cymru, wedi chwarae rhan flaenllaw drwy hwyluso ymgysylltu rhwng adrannau Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol.

Yn dilyn Uwchgynhadledd Swyddi Cymru a gynhaliwyd yng Nghasnewydd fis Chwefror y llynedd, bu'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, y Farwnes Randerson, yn cynnal ail Uwchgynhadledd Swyddi yn Wrecsam ym mis Gorffennaf. Roedd y digwyddiad yn gyfle i fusnesau bach a chanolig a rhanddeiliaid busnes a sgiliau allweddol ddod at ei gilydd i drafod anghenion busnes ac anghenion pobl ifanc yn y farchnad lafur. Roedd y ddynameg ychwanegol o gynnwys pobl ifanc yn rhoi syniad i gyflogwyr o'r rhwystrau y mae pobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn eu hwynebu. Sicrhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol leoliad profiad gwaith i un o'r bobl ifanc oedd yn bresennol, ac mae ef yn awr mewn gwaith llawn amser. Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Swyddi yng Ngorllewin Cymru ddiwedd y gwanwyn.

Yn dilyn yr Uwchgynadleddau Swyddi hyn, sefydlodd yr Ysgrifennydd Gwladol a Phrif Weinidog Cymru weithgor cyflogaeth ar lefel uwch swyddogion a oedd yn cynnwys Swyddfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru, i drafod y materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr uwchgynadleddau a sut y gellid gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â hwy, ynghyd â phrosiectau cyflogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop a mynediad at sgiliau. Cyfarfu'r grŵp hwn am y tro cyntaf fis Chwefror ac mae'n ystyried sut y gallwn, drwy gydweithio, sicrhau bod ceiswyr gwaith yng Nghymru'n gallu manteisio ar yr holl gymorth sydd ei angen arnynt i chwarae rhan weithredol yn y farchnad lafur.

Lansiodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Stephen Crabb AS y Gynhadledd Hyder Anabledd gyda'r Prif Weinidog ym mis Gorffennaf. Roedd y gynhadledd yn dwyn ynghyd gyflogwyr sy'n esiamplau mewn meysydd ymarfer da wrth gyflogi pobl anabl, ac eraill sy'n awyddus i gynyddu amrywiaeth eu gweithlu a lle mae pobl anabl wedi'u tangynrychioli fel cyflogeion.

## *Amcan 2: Goruchwylio a chynnal y setliad datganoli a hwyluso cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a sefydliadau datganoledig yng Nghymru*

### *Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ('Comisiwn Silk')*

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ymateb y Llywodraeth i adroddiad cyntaf Comisiwn Silk – ar ddatganoli ariannol yng Nghymru – ym mis Tachwedd, gan dderbyn, yn gyflawn neu'n rhannol, 30 o'r 31 argymhelliad a wnaethpwyd gan y Comisiwn.

Cyhoeddodd Swyddfa Cymru ddrafft o Fil Cymru ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu ar 18 Rhagfyr gan amlinellu sut yr oedd y Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r argymhellion hynny a oedd angen deddfwriaeth. Roedd y Bil drafft hefyd yn cynnwys deddfwriaeth i weithredu newidiadau i drefniadau etholiadol y Cynlluniad yr oedd Swyddfa Cymru wedi ymgynghori arnynt yn 2012. Yn dilyn craffu cyn y broses ddeddfu, cyflwynwyd Bil Cymru i Dŷ'r Cyffredin ar 20 Mawrth a chafodd ei Ail Ddarlleniad ar 31 Mawrth.

Cwblhaodd Comisiwn Silk ei waith ar 3 Mawrth pan gyhoeddodd ei ail adroddiad. Gwnaeth y Comisiwn 61 o argymhellion i wella'r setliad datganoli. Mae Swyddfa Cymru yn awr yn gweithio ag Adrannau eraill Llywodraeth y DU i asesu'r argymhellion a'u goblygiadau; yn benodol, yr achos dros weithredu'r argymhellion hynny nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol yn y Senedd gyfredol.

Yng nghyd-destun y datblygiadau hyn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi traddodi nifer o areithiau pwysig ar y setliad datganoli yng Nghymru a materion cyfansoddiadol ehangach, gan gynnwys "Wales in the Continuing Union" yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Mehefin a "Wales in the Age of Localism" gerbron Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn Llandudno ym mis Medi.

### *Cynghori ar y cysylltiad rhwng polisi a deddfwriaeth ddatganoledig a hynny sydd heb ei ddatganoli*

Mae'r Adran wedi parhau i hyrwyddo buddiannau Cymru wrth ddatblygu deddfwriaeth y Llywodraeth, gan gydlynu a hwyluso ymgysylltu â thimau Biliau a chynghori ar sut y gallai deddfwriaeth arfaethedig effeithio ar Gymru. Fel yr Adran sy'n gyfrifol am oruchwylio'r setliad datganoli, mae Swyddfa Cymru wedi cynghori ar sut y dylai'r setliad datganoli Cymru gael ei adlewyrchu mewn deddfwriaeth arfaethedig, a lle dylid gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad o safbwynt darpariaethau mewn Biliau seneddol.

Mae'r deddfwriaethau pwysig y buom â chysylltiad agos â hwy, a ble'r oedd angen ystyried y setliad datganoli'n fanwl, yn cynnwys y Bil Mewnfudo a'r Bil Dŵr.

Roedd y Bil Mewnfudo'n mynnu bod Swyddfa Cymru yn cynorthwyo'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod y setliad datganoli cyfredol yn cael ei adlewyrchu'n briodol, o gofio'r cydgysylltiad rhwng materion mewnfudo, nad ydynt wedi'u

datganoli, a materion iechyd a thai, sydd wedi'u datganoli yng Nghymru. Roedd angen rhoi sylw penodol i'r Bil Dŵr o gofio'r materion trawsffiniol cymhleth, a'r angen i sicrhau y gofynnid, ac y ceid, cydsyniad deddfwriaethol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Roedd y cymhlethdod hwn i'w weld hefyd yn y gwaith a wnaethpwyd i helpu i sefydlu'r Corff Cyfoeth Naturiol i Gymru. Roedd Swyddfa Cymru yn falch o gynorthwyo Llywodraeth Cymru i sefydlu'r corff newydd hwn drwy hwyluso'r trafodaethau rhynglywodraethol angenrheidiol a hwyluso'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol drwy'r Senedd.

Mae'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, y Farwnes Randerson yn cadw trosolwg dros raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac mae wedi cwrdd yn rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn i drafod deddfwriaeth o fewn eu portffolio. Mae'r Adran hefyd wedi cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Whitehall i adolygu mentrau polisi Llywodraeth Cymru a chynnydd ei rhaglen ddeddfwriaethol. Yn fwyaf arbennig, mae Swyddfa Cymru wedi parhau i chwarae rôl bwysig drwy fonitro Biliau'r Cynulliad i sicrhau eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Bu cysylltiadau agos ar nifer o Filiau a chynigion cyn deddfu, yn benodol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sy'n effeithio ar nifer o adrannau Whitehall. Rydym hefyd wedi dechrau ymgysylltu'n gynnar ar y biliau arfaethedig i atal troseddu gan bobl ifanc ac i roi sylw i ac i leihau trais domestig.

***Annog a hwyluso cydweithredu rhwng Llywodraeth y DU a sefydliadau datganoledig***

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i weithio ag Adrannau yn Whitehall i godi ymwybyddiaeth o'r setliad datganoli i Gymru, gan egluro sut y mae'n gweithio'n ymarferol a'r hyn sydd angen i Adrannau ei wneud i sicrhau bod materion datganoli'n cael eu hystyried yn briodol ganddynt yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Roedd hyn yn cynnwys cydlynu a hwyluso ymgysylltu â thimau Biliau i'w cynghori ar sut y dylai'r setliad datganoli gael ei adlewyrchu yn neddfwriaeth Llywodraeth y DU gan gynnal trafodaethau rheolaidd â swyddogion polisi wrth i bolisïau newydd gael eu datblygu yn Whitehall a chyfrannu at ddigwyddiadau hyfforddi ar ddatganoli ar gyfer Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth.

## *Amcan 3: Cynrychioli buddiannau Cymru o fewn Llywodraeth y DU a hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bolisïau Llywodraeth y DU yng Nghymru*

Bu Gweinidogion Swyddfa Cymru yn cymryd rhan mewn saith sesiwn Cwestiynau Seneddol llafar yn Nhŷ'r Cyffredin yn ystod 2013-14, gan alluogi ASau i graffu ar waith Llywodraeth y DU. Yn ogystal â hyn cynhaliwyd 3 chyfarfod o'r Uwch-bwyllgor Cymreig; ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn Ionawr ac ymateb y Llywodraeth i adroddiad Rhan I Comisiwn Silk ym mis Chwefror. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi ateb i amryw o ddadleuon Neuadd San Steffan ar bynciau megis Sgamiau Ariannol yng Nghymru a Diwygiadau Lles. Ymatebodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, y Farwnes Randerson hefyd i nifer o ddadleuon yn Nhŷ'r Arglwyddi ar gyflwr economi Cymru.

Cafodd anghenion Cymru ystyriaeth lawn ym mhob Bil Seneddol, ac roedd darpariaethau Cymreig wedi'u cynnwys mewn nifer ohonynt. Roedd y Bil Plant a Theuluoedd yn enghraifft ardderchog o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r gorau er budd Cymru. Gweithiodd Swyddfa Cymru yn gyflym i ymestyn nifer o'r darpariaethau, gyda rhai ohonynt wedi'u cyflwyno'n hwyr yn nhaith y Bil, i Gymru ac i sicrhau'r cynigion cydsyniad deddfwriaethol angenrheidiol y tu allan i'r gweithdrefnau arferol.

### *Datganiad yr Hydref a'r Gyllideb*

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi bod yn awyddus i sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio'n galed a busnesau ledled Cymru'n elwa ar Ddatganiadau'r Hydref a'r Gyllideb.

Cyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref y bydd Cyfraniadau Yswiriant gwladol cyflogwyr yn cael eu diddymu o 2015 ar gyfer rhai o dan 21 oed fel rhan o becyn ehangach i gynorthwyo pobl ifanc ac i wneud yn siŵr nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae oddeutu 64,000 o bobl yng Nghymru o dan 21 oed y bydd eu swyddi'n cael eu cynnal drwy ddiddymu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Hefyd, bydd Canolfan Byd Gwaith yn ehangu eu gwasanaethau i gynnig cymorth i bobl ifanc 16-17 oed sydd am fanteisio ar brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi.

Cafwyd cyhoeddiad yn Natganiad yr Hydref hefyd am ragor o fesurau i gynorthwyo busnesau a theuluoedd gyda chostau byw gan gynnwys pecyn argyfwng a allai weld 1.3 miliwn o aelwydydd yng Nghymru'n elwa ar ostyngiad cyfartalog o £50 yn eu biliau trydan. Mae'r Llywodraeth wedi parhau i helpu modurwyr hefyd drwy'r ymrwymiad i rewi'r dreth ar danwydd; drwy ganslo'r cynnydd yn y dreth ar danwydd a oedd wedi'i fwriadu ar gyfer Medi 2014 bydd costau tanwydd yn gostwng i'r 1.75 miliwn o yrwyr yng Nghymru.

O ganlyniad i'r mesurau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2014 a'r datganiadau cyllidol eraill, dros gyfnod yr adolygiad o wariant cyfredol bydd grym gwario Llywodraeth Cymru £800 miliwn yn uwch na'r hyn a gyhoeddwyd yn adolygiad o wariant 2010.

### *Diwygio Lles*

Yn ei araith yn Seminar Fforwm Polisi Cymru ar Ddiwygio Lles a Thlodi yng Nghymru, esboniodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Stephen Crabb AS, wrth randdeiliaid allweddol pam yn union y mae Cymru, yn fwy efallai nag unrhyw ran arall o'r DU, angen diwygio lles. Yn ystod ei araith, dywedodd y Gweinidog fod diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i dorri'r cylch dibyniaeth a mynd â'r system les yn ôl at ei gwir werth a diben, a phwysleisiodd yr angen i bob haen o lywodraeth yng Nghymru gydweithio i gyflawni diwygiadau. I gyflawni hyn, rydym yn parhau i weithio'n glos â Llywodraeth Cymru wrth i ddiwygiadau i'r system les gael eu gweithredu ac rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

Er mwyn pwysleisio ymhellach yr angen i gydweithio, cynhaliodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Stephen Crabb AS ddigwyddiad bord gron ag awdurdodau lleol De Cymru ym mis Rhagfyr a chydag awdurdodau lleol Gogledd Cymru ym mis Mawrth i drafod sut y gall awdurdodau lleol gynorthwyo i gyflawni'r diwygiadau. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn gyfleoedd pwysig i ymgysylltu'n uniongyrchol ag awdurdodau lleol fel yr asiant cyflenwi ar gyfer llawer o wasanaethau o dai i gyngor ar reoli arian. Gwnaeth ymroddiad a hyblygrwydd yr awdurdodau lleol argraff ddofn ar y Gweinidog yn y ffordd maent yn gweithredu i roi'r newid polisi hwn ar waith.

Cynhaliwyd rhaglen o ymweliadau hefyd i weld ystod y cymorth sydd ar gael i geiswyr gwaith yng Nghymru. Ym mis Mehefin, bu'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Stephen Crabb AS yn ymweld â Chanolfan Byd Gwaith Aberdâr, darparwr y Rhaglen Waith Working Links, a Sefydliad y Deillion Merthyr. Ym mis Rhagfyr, bu'r Gweinidog yn ymweld â Chanolfan Byd Gwaith Casnewydd a darparwr Rhaglen Waith Pen-y-bont ar Ogwr. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd â'r Gweinidog i drafod diwygio lles a mesurau i helpu pobl yn ôl i waith.

### *Plismona*

Bu Swyddfa Cymru'n cydweithio'n agos â'r Swyddfa Gartref drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru'n cael ystyriaeth lawn drwy gydol y broses o weithredu pob polisi plismona newydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cwrdd yn rheolaidd â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yng Nghymru i drafod materion plismona ledled Cymru. O gofio'r cysylltiad agos hwn â materion plismona, roedd Gweinidogion yn croesawu'r newyddion bod troseddu'n gyffredinol yng Nghymru wedi gostwng 5% yn y flwyddyn hyd Fedi 2013.

### *Y Gymdeithas Fawr*

Ers sefydlu Fforwm Cymdeithas Fawr Swyddfa Cymru yn 2012, aethpwyd ati unwaith eto i ddathlu llwyddiant mentrau cymdeithasol Cymru drwy gydol y flwyddyn. Roedd Gweinidogion Swyddfa Cymru yn falch o weld Crest Co-operative a Vi--Ability yn ennill gwobrau pwysig y Gymdeithas Fawr.

Mae gwaith Fforwm y Gymdeithas Fawr wedi canolbwyntio fwyfwy ar bynciau penodol sydd o bwys i Gymru. Ym mis Tachwedd, bu'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol y Farwnes Randerson yn cynnal digwyddiad bord gron ochr yn ochr

ag Age Cymru i ystyried beth arall ellid ei wneud i warchod pobl hŷn rhag bygythiad sgamiau ariannol ac ym mis Mawrth trefnodd gyfarfod arall ym Mhrifysgol De Cymru i drafod sut i gynyddu cyfranogiad mewn cynlluniau ynni cymunedol yng Nghymru.

### *Y Lluoedd Arfog*

Mae Swyddfa Cymru yn cydnabod ac yn anrhydeddu cyfraniad ein Lluoedd Arfog i Gymru ac i'r DU yn gyffredinol. Roedd pob un o Weinidogion Swyddfa Cymru yn bresennol mewn gwasanaethau i nodi Sul y Cofio, yn Llundain, Caerdydd a Sir Benfro a bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymweld â'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant, ble nododd yr achlysur drwy fathu darn arian £5 2013 i goffau Dydd y Cofio. Bu'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol y Farwnes Randerson yn bresennol mewn digwyddiadau i nodi pumed Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghaerdydd. Yn ystod yr un penwythnos roedd yn bresennol mewn derbyniad yng Nghaeau Pontcanna, bu'n ymweld â'r Amgueddfa Firing Line yng Nghastell Caerdydd a chyfarfu â nifer o gymuned y lluoedd a'u teuluoedd.

Mae'r lluoedd wrth gefn yn chwarae rhan allweddol i amddiffyn ein cenedl, ac ym mis Mawrth roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn falch o helpu i lansio Sgwadron Wrth Gefn newydd 614 (West Glamorgan), yng Nghaerdydd. Yn y lansiad pwysleisiodd y cyfleoedd unigryw sydd ar gael i unigolion a chyflogwyr drwy ymuno â'r lluoedd wrth gefn.

### *Yr Iaith Gymraeg*

Swyddfa Cymru yw'r Adran Arweiniol o fewn Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cwrdd â Chomisiynydd y Gymraeg yn rheolaidd i drafod darpariaeth yn y Gymraeg gan Adrannau Llywodraeth y DU a datblygiadau polisi ehangach ar y Gymraeg. Mae hefyd yn trafod materion yn ymwneud â'r iaith â Guto Bebb AS, cynghorydd Swyddfa Cymru ar faterion yr iaith Gymraeg. Ym mis Mawrth, penododd Swyddfa Cymru aelod o staff ar secondiad o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i adolygu darpariaeth yn y Gymraeg ar draws y Llywodraeth ac i asesu galluogrwydd Adrannau Llywodraeth y DU a chyrff i gyrraedd safonau Iaith Gymraeg arfaethedig Llywodraeth Cymru.

# Datblygu Cynaliadwy

Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn unol â chanllawiau a bennwyd yn 2013-2014 gan Drysorlys EM yn 'Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting' sydd wedi'u cyhoeddi yn: www.hm-treasury.gov.uk/frem_sustainability.htm

Mae cynaliadwyedd yn canolbwyntio ar gyflawni targedau'r llywodraeth, lleihau effaith amgylcheddol a lleihau costau. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon, defnydd o ddŵr a gwastraff i safleoedd tirlenwi.

Mae Swyddfa Cymru yn meddiannu un adeilad yn Llundain, Tŷ Gwydyr; nid ydym yn cynnwys meddiant ar y cyd oherwydd y cyfyngiadau wrth geisio allosod data dibynadwy ar gynaliadwyedd ar sail taliadau gwasanaeth sydd wedi'u darparu gan landlordiaid.

### *Llywodraethu, cyfrifoldeb a sicrwydd mewnol*

Roedd Pwyllgor Rheoli Swyddfa Cymru wedi rheoli perfformiad amgylcheddol ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2013-14.

### *Ymrwymiadau i wneud Llywodraeth yn Fwy Gwyrdd*

Mae'r Ymrwymiadau i wneud y Llywodraeth yn Fwy Gwyrdd, a lansiwyd ar 1 Ebrill 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod Adrannau'n gweithredu i leihau effaith amgylcheddol yn sylweddol erbyn 2014-2015 (o'i gymharu â llinell sylfaen 2009-2010). Gellir gweld yr ymrwymiadau hyn yn: http://sd.defra.gov.uk/gov/green-government/commitments.

### *Addasu a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd*

Mae Swyddfa Cymru yn cael cyngor gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ynghylch y camau sy'n angenrheidiol i addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

### *Ymrwymiad Lleihau Carbon*

Mae'r Ymrwymiad Lleihau Carbon yn cael ei reoli gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy:

a Annog defnyddio cynadledda fideo yn hytrach na theithio i gyfarfodydd;

b Defnyddio papur wedi'i ailgylchu; a

c Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na cheir i deithio i gyfarfodydd.

| Tunelli o Allyriannau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2008/09 | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
| Teithio mewn awyrennau | 5.36 | 3.03 | 0.37 | 2.49 | 21.46 | 19.8 |
| Teithio mewn trenau | 17.2 | 19.3 | 15.9 | 15 | 13.73 | 8.66 |
| Milltiroedd mewn ceir | 7.83 | 6.3 | 1.78 | 2.05 | 2.08 | 2.15 |
| Gwresogi â nwy | 13.72 | 19.65 | 14.64 | 13.86 | 17.59 | 16.35 |
| Trydan | 35.68 | 33.81 | 33.19 | 35.04 | 33.90 | 32.35 |
| Gwastraff | 1.29 | 1.23 | 1.27 | 0.86 | 0.85 | 0.83 |
| Cyfanswm CO2 (tunelli) | 81.08 | 83.32 | 67.15 | 69.30 | 89.61 | 60.34 |
| Defnydd o ddŵr mewn metrau ciwbig* | 346 | 370 | 320 | 474 | 361 | 869 |

* Mae'r defnydd o ddŵr wedi cynyddu yn ystod 2013-14 o ganlyniad i brosiect gwaith cyfalaf mawr yn yr adeilad yn Llundain.

Ble mae Swyddfa Cymru yn defnyddio gwasanaethau sydd wedi'u cyflenwi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu dan gontract â hi, mae ein cyfraniad at gyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth ynghylch effeithiau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn cael ei wireddu drwy'r fframweithiau ehangach hynny. Mae gan Swyddfa Cymru raglen waith barhaus i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys:

- Cynyddu ystod yr eitemau y gellir eu casglu i gael eu hailgylchu yn ein dau adeilad;
- Annog defnyddio cynadleddau fideo yn hytrach na theithio i gyfarfodydd;
- Cael peiriannau argraffu sy'n gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni.

# Adolygiad Ariannol

Yn 2013–14 gwariodd Swyddfa Cymru £13.487 biliwn o fewn yr Amcangyfrifon Cyflenwad Seneddol (Amcangyfrif Atodol y Gwanwyn), yn bennaf ar ffurf grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

***Perfformiad Ariannol***

Bydd y Senedd yn pleidleisio ar gyllid i'r Adrannau ddwywaith yn ystod y flwyddyn drwy Brif Amcangyfrif ar ddechrau'r flwyddyn ac Amcangyfrif Atodol Sengl ym mis Chwefror.

***Symudiadau yn narpariaeth yr Amcangyfrifon yn ystod 2013–14***

Ar ddechrau'r flwyddyn, dyfarnwyd £13.195 biliwn i Swyddfa Cymru yn ei Phrif Amcangyfrif. Erbyn yr Amcangyfrif Atodol Sengl terfynol, roedd hyn wedi cynyddu i £13.488 biliwn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd o £293,207,000 yn y cyllid i Gronfa Gyfunol Cymru (WCF).

**Eglurhad am yr amrywiannau rhwng Amcangyfrifon ac Alldro Adnoddau Net**

***Swyddfa Cymru – Adnoddau***

| Gwariant o Fewn Terfynau Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 3,936 | 4,625 | 689 | 15 |

Gellir priodoli'r tanwariant yn Swyddfa Cymru yn bennaf i'r adran yn cadw swyddi'n wag am gyfnod hir yn ystod y flwyddyn, arbedion effeithlonrwydd, cyllideb nad oedd yn arian parod heb ei defnyddio a chronfeydd wrth gefn.

***Swyddfa Cymru – Cyfalaf***

| Gwariant o Fewn Terfynau Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 564 | 724 | 160 | 22 |

Gellir priodoli'r tanwariant yn bennaf i wariant a oedd wedi'i gontractio ar ddiwedd y cyfnod adrodd ond heb ei achosi eto.

### *Comisiwn ar Ddatganoli*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol | Alldrao £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|
| Commission on Devolution | 513 | 595 | 82 | 14 |

Gellir priodoli'r tanwariant yn y Comisiwn ar Ddatganoli yn bennaf i gronfeydd wrth gefn heb eu defnyddio ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

### *Grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyfunol Cymru | 13,482,462 | 13,482,655 | 193 | 0.0014 |

### *Cysoni gwariant net ar adnoddau rhwng yr Amcangyfrifon, cyllidebau a chyfrifon*

| | 2013-14 £000 | 2012-13 £000 |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net (Amcangyfrifon)** | 13,486,890 | 12,791,950 |
| Addasiadau i waredu eitemau di-gyllideb | | |
| Grantiau i Gronfa Gyfunol Cymru | (13,482,462) | (12,786,547) |
| Eraill | | |
| Cyfanswm Alldro'r Gyllideb Adnoddau | 4,428 | 5,403 |
| Ac o hyn | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) | 4,449 | 5,423 |
| Terfyn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)* | (21) | (20) |
| Mae addasiadau'n cynnwys | | |
| Grantiau i weinyddiaethau datganoledig – Cymru | 13,482,462 | 12,786,547 |
| Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol yn yr OCS | (1)^ | |
| Cost Gweithredu Net (Cyfrifon) | 13,486,889 | 12,791,950 |

* Mae AME yn ymwneud â defnyddio darpariaeth ymddeol yn gynnar. Roedd yr alldro o £21,277 (a gafodd ei dalgrynnu i £21k) £723 o dan y warchodaeth AME sydd wedi arwain at dorri terfyn y Cyflenwad Seneddol ar gyfer AME. Gweler Nodyn SOPS2 a phennod 6 Datganiad Llywodraethu.

* Mae £ (1)k yn cyfeirio at incwm y tu allan i gwmpasiad yr Amcangyfrif ac nid yw'n mynd drwy Nodyn SOPS2. Gweler Nodyn SOPS5.

## Edrych ymlaen at 2014-15

Wrth i gynllun economaidd tymor hir y Llywodraeth barhau i weithio, byddwn yn manteisio ar bob cyfle i hybu twf economaidd ledled Cymru. Gwella seilwaith Cymru, helpu mwy o bobl yn ôl i waith ac annog mwy o fewnfuddsoddiad fydd ein prif flaenoriaethau. Ym mis Medi, bydd uwchgynhadledd NATO yng Nghasnewydd yn gyfle gwych i ddangos yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig ar y llwyfan rhyngwladol, ac rydym yn benderfynol bod y gymuned leol yn manteisio ar y buddiannau.

Bydd yr Adran yn parhau i gefnogi Bil Cymru ar ei daith drwy'r Senedd, gyda'r nod o sicrhau bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn diwedd y Senedd hon. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar yr argymhellion a wnaethpwyd yn ail adroddiad Comisiwn Silk, yn enwedig y rhai ble na fydd angen deddfwriaeth sylfaenol i'w gweithredu. Bydd y Llywodraeth yn ystyried yr achos dros weithredu'r argymhellion hyn yn y Senedd hon os oes achos da wedi'i wneud a bod cefnogaeth gyffredinol i'r newid arfaethedig.

Mae'r Adran yn ffynhonnell gyfoethog o gyngor ac arbenigedd ar setliad datganoli Cymru i Adrannau eraill. Byddwn yn parhau i weithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o setliad datganoli Cymru ymhlith timau polisi yn Whitehall ac yng Ngwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth. Bydd Adrannau hefyd yn parhau i droi at Swyddfa Cymru wrth i bolisïau gael eu llunio ac wrth i ddeddfwriaeth gael ei pharatoi ar gyfer pedwaredd sesiwn ddeddfwriaethol (ac olaf) y Senedd hon. Yn yr un modd, byddwn yn gweithio hefyd â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddeddfwriaeth a gyflwynir ganddi yn y Cynulliad yn gydnaws â'r setliad datganoli a'u bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwelliannau a'r arbedion a wnaethpwyd gennym yn yr Adran yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac rydym eisoes yn cynllunio sut y byddwn yn wynebu'r heriau o gyflawni amcanion ein Cynllun Busnes ar gyllideb lai. Byddwn yn cydweithio'n agos hefyd ag Adrannau eraill y Llywodraeth, yn enwedig ein Swyddfeydd Tiriogaethol eraill, wrth i ni ystyried ymhellach y posibiliadau ar gyfer rhannu ein gwasanaethau cymorth.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**23 Mehefin 2014**

# 4 Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus

## Gweinidogion a Chyfarwyddwyr Swyddfa Cymru

Dangosir Gweinidogion a Chyfarwyddwyr Swyddfa Cymru yn ystod 2013-14 yn y tabl isod:-

| Gweinidogion/Cyfarwyddwyr Swyddfa Cymru |
|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS** – Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| **Stephen Crabb AS** – Is–ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gymru |
| **Y Farwnes Randerson** – Is–ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gymru |
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr a Swyddog Cyfrifyddu |
| **Stephen Hillcoat** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu |
| **Sian Oborne** – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol |

Mae gan Swyddfa Cymru hefyd ddau aelod bwrdd anweithredol, sef David Crawley (arweiniol) ac Ian Summers. David Crawley yw cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Swyddfa Cymru a Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Rheoli. Mae Ian Summers yn aelod o bob un o'r tri phwyllgor. Nodir manylion holl bwyllgorau Swyddfa Cymru a'u haelodau ym mhennod 6 "Datganiad ar Lywodraethu".

# Ein Perfformiad Corfforaethol

Mae'r nod o gyflawni ein tri amcan fel y'u hamlinellwyd ym Mhennod 3 wedi'i ategu gan chwe egwyddor effeithlonrwydd a llywodraethu corfforaethol da. Y rhain yw:-

- **Darparu gwerth am arian a rheoli costau'n effeithiol.** Rydym yn adolygu pob Cytundeb Lefel Gwasanaeth ag adrannau eraill sy'n cyflenwi gwasanaethau i Swyddfa Cymru i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu darparu'n effeithlon a darbodus;
- **Sicrhau rheoli ariannol da**, gyda mesurau rheoli ariannol effeithiol ar waith;
- **Ymateb yn gywir a phrydlon** i ohebiaeth y cyhoedd, Cwestiynau Seneddol, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ymholiadau gan y Seneddol a'r Cynulliad;
- **Cadw a chymell gweithlu cymwys sy'n gallu cyfranogi** at redeg ac at gyfeiriad Swyddfa Cymru yn y dyfodol;
- **Rheoli gwybodaeth yn effeithiol**, gan sicrhau bod gwybodaeth a gedwir gan Swyddfa Cymru yn cael ei rheoli a'i diogelu'n briodol er budd y Llywodraeth a'r cyhoedd;
- **Creu amgylchedd gweithio pleserus** i'r holl staff yn adeiladau Swyddfa Cymru.

Rydym yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth ymgymryd â'n prif weithgarwch corfforaethol.

### *Cyllid*

O'r setliad o £13,488 biliwn i Gymru, roedd dyraniad Swyddfa Cymru ar gyfer 2013-14 oddeutu £6 miliwn, a gwariwyd hyn yn bennaf ar staff ac adeiladau Swyddfa Cymru, a chyfrifoldebau eraill Swyddfa Cymru megis ad-daliadau i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Gweddill y setliad (£13,483 biliwn) oedd y grant i Lywodraeth Cymru a Chronfa Gyfunol Cymru.

Mae Swyddfa Cymru yn trefnu i drosglwyddo taliadau grant i Gronfa Gyfunol Cymru ond mae'r union ffordd y gwerir yr arian hwnnw ac ar beth yn fater i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ei ddefnydd o adnoddau ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am archwilio'r adnoddau hynny.

### *Effeithlonrwydd*

Yn ystod yr Adolygiad o Wariant cyfredol (hyd at 2014-15) bydd cyllideb Swyddfa Cymru yn lleihau un rhan o dair mewn termau real.

Er mwyn helpu i ymdopi â'r gostyngiad hwn, mae Swyddfa Cymru wedi sefydlu Pwyllgor Newid ac Effeithlonrwydd i wneud argymhellion ar yr arbedion y gellid eu cyflawni ym mhob un o'r blynyddoedd ariannol nesaf o dan yr Adnoddau Gwario. Fel rhan o'r gwaith hwn mae'r Swyddfa wedi adolygu ei strwythur

staffio i sicrhau bod ganddi'r sgiliau cywir i gyflawni ei Chynllun Busnes o fewn terfynau ein cyllideb lai. Rydym wedi chwilio am denantiaid ar gyfer ein swyddfa yn Llundain er mwyn defnyddio'r adeilad cyfan.

Mae'r Swyddfa'n parhau i ymdrechu i rannu gwasanaethau ac arbenigedd ag Adrannau'r Llywodraeth pan fydd hynny'n bosibl er mwyn lleihau costau a gwella cydnerthedd. Yn 2013–14, cwblhaodd Swyddfa Cymru a Swyddfa Gogledd Iwerddon brosiect peilot llwyddiannus i rannu proses Rhyddid Gwybodaeth ac yn 2014–15 bydd cynllun i rannu gwasanaeth mewn modd tebyg yn cael ei dreialu yn achos gohebiaeth gweinidogol.

Fel Adran fechan, mae Swyddfa Cymru wedi parhau â dull cost effeithiol a phragmataidd o ddarparu ein gwasanaethau corfforaethol mewnol, gan gadw trefniadau fframwaith a chontractau presennol y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) mewn meysydd fel diogelwch, rheoli cyfleusterau, a TG a gwasanaethau ariannol. Mae'r trefniadau a'r contractau hyn yn arwain at fuddiannau sylweddol o ran arbedion maint ac arbenigedd i'r Adran. Mae gennym gytundebau lefel gwasanaeth ar waith gyda'r MoJ ar gyfer y gwasanaethau hyn.

### *Rhwymedigaethau Pensiwn*

Mae manylion am y modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn yng nghyfrifon Swyddfa Cymru yn cael eu datgelu yn nodyn polisi Adroddiad Tâl a Chyfrifyddu 1.9.

### *Tryloywder*

Mae tryloywder, atebolrwydd a gweithredu agored yn ganolog i werthoedd craidd Swyddfa Cymru. Rydym yn parhau i gyhoeddi swm sylweddol o wybodaeth ar ein gwefan, gan gynnwys:

- Gwariant o fwy na £500, gan gynnwys Cardiau Caffael Llywodraeth;
- Ffigurau misol am y gweithlu, gan gynnwys Costau Cyflog;
- Strwythur a chyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil;
- Rhoddion sydd wedi'u rhoi a'u derbyn gan Weinidogion, y Cynghorydd Arbennig a'r Cyfarwyddwr dros £140;
- Teithiau tramor y Gweinidogion;
- Lletygarwch a gafwyd gan Weinidogion, y Cynghorydd Arbennig a'r Cyfarwyddwr;
- Cyfarfodydd â sefydliadau allanol, gan gynnwys y cyfryngau.

Yn ystod 2013–14 roeddem wedi delio â dros 100 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yr amlinellir isod.

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd, A oedd yn cynnwys: | 117 |
| Ymatebion a roddwyd o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn cyfnod estynedig a ganiatawyd | 116 (99%) |
| Ceisiadau am Adolygiad Mewnol o'n hymateb | 2 |
| Ymatebion a gyfeiriwyd at y Comisiynydd Gwybodaeth gan y ceisydd | 0 |

Rhoddir crynodeb o'n perfformiad Seneddol yn ystod 2013–14 isod:

| Targed | % |
|---|---|
| % y cwestiynau â dyddiad trafod a atebwyd mewn pryd | 96% |
| % y cwestiynau ysgrifenedig cyffredin a atebwyd mewn pryd | 99% |

Ein perfformiad wrth ddelio â gohebiaeth yn ystod 2013–14 oedd:

| Targed | % |
|---|---|
| Gohebiaeth wedi'i thrafod o fewn 15 diwrnod | 98% |

***Taliadau i Gyflenwyr***

Yn ystod blwyddyn ariannol 2013–14 roedd yr Adran wedi talu 64% o anfonebau o fewn 5 diwrnod ar ôl cael anfoneb ddilys a 90% o anfonebau o fewn 8 diwrnod (2012–13 94%). Mae hyn yn cymharu â'r targed ar draws llywodraeth o 80% o fewn 5 diwrnod ar ôl cael anfoneb ddilys. Mae'r Adran wedi talu ei holl anfonebau o fewn telerau'r cyflenwyr.

***Swyddfeydd a Gwaith Cyfalaf***

Prif swyddfa'r Adran yw Tŷ Gwydyr, yn Whitehall, a oedd yn dŷ tref Sioraidd yn wreiddiol, ac sy'n adeilad rhestredig Gradd II*. Rydym yn cael cyngor a chymorth proffesiynol gan dîm ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a chan ein hasiantau rheoli ein hunain, i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rheoliadau adeiladu statudol a'n bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, treftadaeth a deddfwriaeth berthnasol arall. Rydym yn dilyn rhaglen dreigl o waith cynnal a chadw ar gyfer Tŷ Gwydyr sy'n cydnabod ei statws a'i ofynion arbennig, ac rydym yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau amgylchedd gweithio diogel i'n staff, y Gweinidogion ac ymwelwyr.


Hefyd, mae'r Adran yn rhentu gofod swyddfa (ar gyfer tua 43% o'i staff) yng Nghymru, ym Mae Caerdydd ger Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r ddwy swyddfa'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb.

### *Staff*

Rydym yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn defnyddio ein staff bychan, sy'n meddu ar sgiliau priodol, yn y ffordd fwyaf effeithiol i gyflawni ein hamcanion busnes. Nid ydym yn gyflogwr drwy ein hawl ein hunain ac felly rydym yn parhau i gael gwasanaethau cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Cyflawnder sydd hefyd yn recriwtio ar ein rhan. Mae ein polisi staff mewnol yn canolbwyntio ar sawl maes allweddol: cynnwys staff; rheoli perfformiad yn well; dysgu a datblygu parhaus gyda chymorth Civil Service Learning; sgiliau a galluogrwydd; a newid trefniadol ac effeithlonrwydd.

Roedd gan Swyddfa Cymru 56 o staff ar ddechrau 2013–14 (a oedd yn cynnwys pedwar aelod o staff a oedd wedi'u rhoi ar fenthyg i Gomisiwn annibynnol ac aelod arall i Ymchwiliad). Roedd y nifer hwn wedi lleihau i 53 erbyn 31 Mawrth 2014, yn unol â thargedau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.


Mae'r siart isod yn dangos patrwm y lefelau staffio drwy gydol y flwyddyn.




Cyfanswm nifer y staff mewn swyddi ar 31 Mawrth 2014 oedd 53 (52.4 cyfwerth ag amser llawn), a oedd yn cynnwys chwe gweithiwr asiantaeth (dros dro), tri rheolwr dros dro, pedwar prentis ar gontractau tymor penodol, saith aelod o staff ar fenthyg gan Lywodraeth Cymru a saith ar fenthyg gan Adrannau eraill y Llywodraeth; roedd 43% o'r staff wedi'u lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd a 57% yn Nhŷ Gwydyr, Llundain. Roedd pedwar aelod o staff ar secondiad i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.

Dangosir dadansoddiad o'r staff yn ôl graddfeydd y gwasanaeth sifil ar 31 Mawrth 2014 yn y siart isod:

**Dadansoddiad o'r staff yn ôl graddfeydd 31 Mawrth 2014**




***Recriwtio***

Cynhaliodd Swyddfa Cymru 7 ymarferiad recriwtio mewnol (hynny yw, mewnol i'r Gwasanaeth Sifil) yn ystod 2013–14. Ni chafwyd dim un ymgeisydd yn dilyn dau o'r ymarferiadau hyn (ar gyfer staff cyfathrebu arbenigol) ac felly aethpwyd ymlaen i ymgyrchoedd allanol. Y rhain oedd yr ymarferiadau recriwtio allanol cyntaf i gael eu cynnal gan y Swyddfa mewn pum mlynedd. Hefyd, hysbysebwyd dau gynllun prentisiaeth a hwyluswyd lleoliad llwybr carlam gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

***Ymadawiadau, Ymddiswyddiadau ac Ymddeoliadau***

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y prif resymau pam y gadawodd staff Swyddfa Cymru oedd am fod staff ar fenthyg yn dychwelyd i'w Hadrannau gwreiddiol a staff yn cael swyddi yn y gwasanaeth sifil ehangach. Ni fu dim ymddeoliadau yn ystod y flwyddyn.

***Yr Uwch Wasanaeth Sifil***

Ar 31 Mawrth 2014 roedd 4 aelod o staff wedi'u penodi i swyddi yn yr uwch wasanaeth sifil yn Swyddfa Cymru.

### *Cyfle Cyfartal*

| Staff yn swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2014 | Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| Y gyfran sy'n fenywod | 1 of 4 | 1 of 4 |
| Y gyfran sy'n fenywod ar fand cyflog 2 ac uwch | 0% | 1 of 4* |
| Y gyfran sy'n bobl Dduon neu o Leiafrif Ethnig | 0% | 0% |
| Y gyfran sy'n bobl Anabl | 0% | 0% |

* Cyn-gyfarwyddwr Swyddfa Cymru Fiona Adams-Jones oedd yr unig aelod o staff ar fand Cyflog 2.

| Staff o Dan Lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2014 | Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| Menywod | 51% | 56% |
| Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 4% | 8% |
| Pobl Anabl | 0% | 2% |

### *Rheoli Perfformiad*

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i reoli perfformiad yn effeithiol. Cyflwynwyd system newydd ar draws y gwasanaeth sifil yn 2013-14 a llwyddodd yr holl staff i gyflawni'r terfyn amser a bennwyd gan gynnwys dau arfarniad ffurfiol ar ganol a diwedd y flwyddyn. Cafodd argymhellion Gweithgor Rheoli Perfformiad Swyddfa Cymru eu gweithredu'n llawn ac mae gwerthusiad i ganfod i ba raddau y mae'r gwelliannau a awgrymwyd wedi'u hymgorffori wedi'i drefnu ar gyfer cyfnod adrodd 2014-15.

### *Arolwg Ymgysylltu â Staff*

Mae Swyddfa Cymru yn cymryd rhan yn yr arolwg blynyddol o'r gwasanaeth sifil cyfan. Yn 2013 roedd ein mynegai cyffredinol ar gyfer ymgysylltu â staff yn 56%, a oedd yn dangos y cynnydd positif cyntaf ers 2010.

Roedd ein sgoriau cadarnhaol uchaf yn ymwneud â staff:

- Meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud eu gwaith yn effeithiol (95% cadarnhaol);
- Bod â dealltwriaeth glir o ddiben y Swyddfa, ei hamcanion a sut mae eu gwaith yn cyfrannu atynt (90-93% cadarnhaol);
- Credu bod yr uwch reolwyr yn y Swyddfa'n ddigon gweladwy (93% cadarnhaol).

Roedd pa mor weladwy oedd yr uwch reolwyr 34% yn uwch na'r Unedau Gorau eu Perfformiad (HPU), sef y chwartel uchaf ar gyfer Gwasanaeth Sifil y DU. Roedd cynnydd cyffredinol o 17% hefyd o dan y thema "Arweinyddiaeth a Rheoli Newid", a oedd yn gosod ein perfformiad 15% yn uwch nag Unedau Gorau eu Perfformiad. Roedd hyn yn cynnwys staff yn cytuno:

- Bod gan y Bwrdd Rheoli weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y Swyddfa (23% yn uwch na HPUau);
- Bydd Uwch Reolwyr yn gweithredu ar ganlyniadau'r arolwg hwn (22% yn uwch na HPUau);
- Bod newid yn cael ei reoli'n dda yn Swyddfa Cymru (18% yn uwch na HPUau).

Mae'r ddau brif faes ble mae'r Swyddfa'n gweithredu arnynt yn 2014 yn ymwneud â themâu Ymgysylltu ei hun a Fy Rheolwr. Mae ein sgoriau cadarnhaol isaf a meysydd ble mae sgoriau wedi gostwng ers 2012 yn adlewyrchu'r themâu hyn fel a ganlyn:

- Roedd ychydig yn llai na hanner y staff yn teimlo'n falch o fod yn rhan o'r swyddfa, byddent yn argymell y swyddfa fel lle da iawn i weithio; ac roeddent yn teimlo ymlyniad personol cryf tuag ati;
- Bu gostyngiad o tua 10% yn y staff a oedd yn hyderus ynghylch y penderfyniadau a wnaethpwyd gan eu rheolwyr, yn credu bod eu rheolwyr yn barod i ystyried eu syniadau; a'u bod yn ymddiried yn eu staff i wneud eu gwaith yn effeithiol.
- Roedd tua thraean y staff yn teimlo ymlyniad personol cryf tuag at y Swyddfa a bod y Swyddfa'n lle da iawn i weithio.

### *Dysgu a Datblygu*

Mae holl staff Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i ddilyn y "Pump y Flwyddyn" o ddyddiau Dysgu a Datblygu fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Galluedd y Gwasanaeth Sifil a lansiwyd fis Ebrill 2013. Cafodd hyn ei adlewyrchu hefyd yn y Canlyniadau Ymgysylltu â Staff, gyda chynnydd o 28% yn nifer y staff sy'n gallu manteisio ar y cyfleoedd Dysgu a Datblygu priodol pan fydd angen; cynnydd o 20% yn nifer y staff sy'n credu bod y cyfleoedd Dysgu a Datblygu a gawsant wedi eu helpu i wella eu perfformiad; a chynnydd o 17% yn y rhai sy'n dweud bod gweithgareddau Dysgu a Datblygu yn eu helpu i ddatblygu eu gyrfaoedd.

Swyddfa Cymru hefyd oedd yr Adran gyntaf o fewn y Gwasanaeth Sifil i gyflwyno ei Harolwg Sgiliau Blynyddol a'r gyntaf i gadarnhau cydymffurfiad 100% o staff sy'n ymgymryd â hunan asesiad yn erbyn Fframwaith Cymhwysedd newydd y Gwasanaeth Sifil.

### *Gwirfoddoli*

Gan adeiladu ar lwyddiant 2012, gwirfoddolodd wyth aelod staff arall, ar bob lefel yn yr Adran, i dreulio diwrnod yn gweithio i Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru yn ystod haf 2013. Bu dau aelod staff yn gwneud gwaith gwirfoddol yn annibynnol, un gyda Inspiring the Future yn ystod yr hydref a bu un yn gweithio â Crisis yn ystod cyfnod y Nadolig.

### *Cyflogi pobl anabl*

Mae Swyddfa Cymru yn dilyn Polisi Anabledd y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) ac mae wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i staff anabl. Rydym yn hyrwyddo diwylliant sy'n galluogi pobl anabl i gyfranogi'n llawn yn y bywyd gwaith, a darperir arweiniad ar gynorthwyo staff anabl drwy'r Llawlyfr Gallu Adrannol. Mae Swyddfa Cymru yn cyfranogi yn y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig (GIS) ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd. Yn 2014, cynhaliodd y Swyddfa ddigwyddiad penodol i gyd-fynd â lansio Amser am Newid, sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion Iechyd Meddwl yng nghyd-destun y gweithle.

### *Data absenoldeb oherwydd salwch*

Nifer cyfartalog y diwrnodiau gwaith a gollwyd (AWDL) yn y flwyddyn galendr oherwydd salwch staff ym mhob rhan o Swyddfa Cymru yn 2013-14 oedd 12.9 diwrnod (2012-13 6.1 diwrnod).

### *Iechyd a Diogelwch*

Ni chafwyd hysbysiad bod rheolau iechyd a diogelwch wedi'u torri yn ystod y flwyddyn. Ceir rhagor o wybodaeth am Bwyllgor Iechyd a Diogelwch yr Adran ym Mhennod 6 yr adroddiad hwn.

### *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Nid yw Swyddfa Cymru yn trafod nifer fawr o ddata sensitif neu bersonol, ond er hynny mae wedi ymrwymo i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir ganddi'n cael ei thrin a'i diogelu'n gywir a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Nodir asedau a risgiau gwybodaeth ac mae mesurau rheoli ar waith i reoli'r defnydd a wneir ohonynt, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym yn defnyddio pecyn hyfforddi a gyflenwir drwy Civil Service Learning (CSL) i hyfforddi'r holl staff bob blwyddyn mewn materion yn ymwneud â sicrhau gwybodaeth a thrafod data.

### *Yr Iaith Gymraeg*

Mae gan Swyddfa Cymru ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun ac mae'n adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar berfformiad yn erbyn y targedau a bennwyd yn y Cynllun. Mae gan yr Adran nifer o staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu ymateb i ymholiadau dros y ffôn a chynhyrchu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, os bydd angen.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd, ac rydym wedi annog staff i ddysgu Cymraeg i'w helpu i weithio'n fwy hyderus yn yr iaith. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu hyfforddiant o'r fath.

Cynhelir archwiliad sgiliau o staff Swyddfa Cymru bob blwyddyn ac mae canlyniadau'r ymarferiad hwn yn sail ar gyfer cynllunio a hyfforddi'r gweithlu. Roedd 11% o'r staff yn gwbl ddwyieithog ar ddiwedd y flwyddyn adrodd.

***Archwilio***

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG), a benodir drwy statud ac sy'n adrodd ar yr archwiliad i'r Senedd. Datgelir tâl yr Archwilwyr yn Nodyn 7 i'r cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn adrodd ni wnaed dim taliad i'r archwilwyr am waith heblaw gwaith archwilio (2012–13: £dim).

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu a'r Cyfarwyddwyr, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Cymru yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai eu cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Swyddfa Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**23 Mehefin 2014**

# 5 Adroddiad Tâl

## Adrannau Archwiliadwy

Yn unol â gofynion Atodlen 7A i Ddeddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd) dim ond rhannau penodol o'r Adroddiad Tâl sydd wedi'u cynnwys yn yr archwiliad allanol llawn, sef yr adrannau ar gyflogau a hawliau pensiwn.

## Polisi Tâl

Pennir tâl uwch weision sifil gan y Prif Weinidog ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch Swyddogion.

Mae'r Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd ar gyflog a phensiynau Aelodau Seneddol (ASau) a'u lwfansau; ar lwfansau Arglwyddi; ac ar gyflog, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y mae eu cyflogau'n cael eu pennu gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion ac Eraill 1975.

Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu'n ystyried y canlynol:

- Yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sydd â'r gallu a'r cymwysterau priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau amrywiol;
- Amrywiadau rhanbarthol mewn Mawrthnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- Polisïau'r Llywodraeth i wella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar Adrannau i gyrraedd targedau allbwn ar gyfer cyflenwi gwasanaethau Adrannol;
- Y cyllid sydd ar gael i Adrannau fel sydd wedi'i amlinellu yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth;
- Targed y Llywodraeth ar gyfer chwyddiant.

Mae'r Corff Adolygu'n ystyried y dystiolaeth a gaiff ynghylch ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu yn www.ome.uk.com

## Tâl aelodau'r Bwrdd ac uwch weision sifil

Mae cyflogau Uwch Weision Sifil yn cael eu pennu'n unol â pholisi Dyfarnu Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) Swyddfa'r Cabinet.

Nid yw Swyddfa Cymru yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r holl staff naill ai'n cael eu cyflogi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu ar fenthyg gan Adrannau eraill y Llywodraeth. Mae taliadau ar wahân sy'n seiliedig ar berfformiad i Uwch Weision Sifil yn yr Adran yn cael eu pennu gan Bwyllgor Tâl y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

## Contractau Gwasanaeth

Penodir staff i'r Gwasanaeth Sifil yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n mynnu bod penodiadau'n cael eu gwneud yn ôl teilyngdod yn seiliedig ar gystadleuaeth deg ac agored, ond sydd hefyd yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni bai bod datganiad i'r gwrthwyneb isod, mae gan y swyddogion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn benodiadau penagored. Byddai terfyniad cynnar, heblaw am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael iawndal fel yr amlinellir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.independent.gov.uk.

## Cyflogau a hawliau pensiwn Gweinidogion

Dangosir cyflogau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn Gweinidogion yn y tablau canlynol. Mae ffigurau cyflog yn cynnwys yr holl lwfansau sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru, ond mae eitemau cyfwerth â blwyddyn lawn wedi'u cyfrifo heb gynnwys lwfansau, taliadau bonws a thaliadau ex gratia.

O ran Gweinidogion yn Nhŷ'r Cyffredin, dim ond cost y tâl gweinidogol ychwanegol y mae Adrannau'n eu talu; mae cyflog am wasanaethau fel AS (£65,738 ar 1 Ebrill 2010), a lwfansau amrywiol y mae ganddynt hawl iddynt yn cael eu hysgwyddo'n ganolog.

## Tâl (cyflog a thaliadau mewn nwyddau)

| CYFANSWM FFIGWR Y TÂL | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Cyflog (£) | | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn (i'r agosaf £1000)[1] | | Cyfanrif (wedi'u talgrynnu i'r £1000) | |
| | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 |
| Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol * | 68,169 | 49,467 | dim | dim | 25,000 | 18,000 | 93,000 | 67,000 |
| Y Wir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (hyd 3 Medi 2012)** | dim | 46,458 | dim | dim | dim | 9,000 | dim | 55,000 |
| Stephen Crabb AS, Is-ysgrifennydd Seneddol *** | dim | dim | dim | dim | dim | dim | dim | dim |
| Y Farwnes Randerson, Is-ysgrifennydd Seneddol *** | dim | dim | dim | dim | dim | dim | dim | dim |

**Nodiadau i'r tabl:**

1. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn sydd wedi cronni yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) wedi tynnu (cyfraniadau'r unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys ychwanegiadau oherwydd chwyddiant nac unrhyw ychwanegiadau neu ostyngiadau sy'n deillio o drosglwyddo hawliau pensiwn.

* Roedd David Jones AS yn Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru hyd Fedi 2012, ac yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi hynny. Mae ei gyflog cyntaf ar gyfer 2012-13 yn adlewyrchu ei benodiad fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru o Fedi ymlaen.

** Yn cynnwys tâl am golli swydd o £17,207 i Cheryl Gillan AS yn dilyn ei hymadawiad â swydd Ysgrifennydd Gwladol.

*** Ar ôl ad-drefnu'r cabinet ym Medi 2012 penodwyd Stephen Crabb AS a'r Farwnes Randerson fel Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru. Mae costau cyflog y ddau Weinidog yn cael eu hysgwyddo gan y Gronfa Gyfunol a Thŷ'r Arglwyddi yn y drefn honno.

| BUDDION PENSIWN | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Pensiwn a gronnir yn 65 oed ar 31 Mawrth 2014 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed £000 | CETV ar 31 Mawrth 2014 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2013 £000 | Cynnydd / gostyngiad gwirioneddol mewn CETV £000 £000 |
| Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol | 4331 | 0-2.5 | 78 | 45 | 22 |
| Y Wir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (hyd 3 Medi 2012)** | am | am | am | 80 | am |
| Stephen Crabb AS, Is-ysgrifennydd Seneddol *** | am | am | am | am | am |
| Y Farwnes Randerson, Is-ysgrifennydd Seneddol *** | am | am | am | am | am |

**Nodiadau i'r tabl:**

Mae'r pensiwn a gronnwyd yn 2013-14 wedi'i ddatgan yn swm gwirioneddol yn hytrach na'i gynnwys mewn bandiau fel y gwnaed mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw ffigurau 2012-13 wedi'u hailddatgan. Cyfrifwyd y CETV ar 31 Mawrth 2014 (a gyhoeddwyd) ar sail rhagdybiaethau actiwaraidd a oedd yn gymwysadwy ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r CETV ar 31 Mawrth 2014 (wedi'i ailgyfrifio) yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol gan gymryd y bydd y rhagdybiaethau hynny ynghylch arenillion yn cael eu crisialu.

* Ar ôl ad-drefnu'r cabinet ym Medi 2012 penodwyd Stephen Crabb AS a'r Farwnes Randerson ill dau'n Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru. Mae costau cyflog y ddau Weinidog yn cael eu hysgwyddo gan y Gronfa Gyfunol a Thŷ'r Arglwyddi yn y drefn honno.

Lle nad yw'n berthnasol: ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth flaenorol.

## Pensiynau Gweinidogion

Mae buddion pensiwn i Weinidogion yn cael eu darparu gan Gronfa Bensiwn Gyfrannol y Senedd (PCPF). Mae'r cynllun wedi'i wneud dan statud (mae'r rheoliadau wedi'u hamlinellu yn Offeryn Statudol OS 1993 Rhif 3253, fel y'i diwygiwyd).

Mae Gweinidogion sy'n Aelodau Seneddol hefyd yn gallu cronni pensiwn AS o dan y PCPF (nid yw manylion hwnnw wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn). Mae'r trefniadau ar gyfer Gweinidogion yn darparu buddiannau ar sail 'cyflog cyfartalog' gan gynnwys holl wasanaeth Gweinidog. Mae'r gyfradd gronni yn 1/40 er 15 Gorffennaf 2002 (neu 5 Gorffennaf 2001 i'r rhai hynny sydd wedi dewis ôl-ddyddio'r newid) ond gall Gweinidogion, fel pob un arall o aelodau'r PCPF, yn gallu dewis cyfradd gronni o 1/50 a chyfradd is o gyfraniad gan y cyflogai. Cyflwynwyd dewis cyfradd gronni ychwanegol o 1/60 (ôl-ddyddiedig i'r 1af Ebrill 2008) ar 1 Ionawr 2010.

Mae buddion i Weinidogion yn daladwy ar yr un pryd ag y bydd buddion ASau yn daladwy o dan y PCPF neu, yn achos y rhai nad ydynt yn ASau, pan fyddant yn ymddeol o'r swydd Weinidogol yn 65 oed neu hŷn. Mae pensiynau'n cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. O'r 1af Ebrill 2013 ymlaen, talodd yr aelodau gyfraniadau rhwng 7.9% a 16.7%, yn ddibynnol ar lefel hynafedd a'r gyfradd cronni a ddewiswyd ganddynt. Bydd y cyfraddau cyfraniadau yn cynyddu o fis Ebrill 2014.

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y bydd gan y Gweinidog hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd 65 oed, neu ar unwaith ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn 65 oed.

Yn unol â'r diwygiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill, bwriedir diwygio'r Cynllun Pensiwn Gweinidogol yn 2015.

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma werth cyfalafog y buddion y mae'r aelod wedi'u cronni yn y cynllun pensiwn ar adeg benodol ar sail asesiad actiwaraidd. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn wrth gefn sy'n daladwy i briod o'r cynllun. Mae CETV yn daliad gan gynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl wasanaeth fel Gweinidog, nid ei benodiad cyfredol fel Gweinidog yn unig. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Dyma i bob pwrpas elfen y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd sy'n cael ei ariannu gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y Gweinidog. Caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cyflogau a hawliau pensiwn Uwch reolwyr

Mae'r ffigurau cyflog yn cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru, ond mae'r eitemau cyfwerth â blwyddyn lawn wedi'u cyfrifo heb gynnwys lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia. Mae bonysau'n seiliedig ar lefelau perfformiad a gyflawnwyd ac fe'u rhoddir drwy'r broses arfarnu. Mae'r bonysau a gofnodwyd yn 2012–13 a'r bonysau a gofnodwyd er mwyn cymharu ar gyfer 2012–13 yn ymwneud â pherfformiad yn 2011–12.

Cafodd yr Uwch Reolwyr gymorth gan y Prif Gyfrifydd, sy'n aelod o'r Bwrdd Strategaeth ac sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Sicrhau Risg.

Dangosir cyflogau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn yr Uwch Reolwyr yn y tablau canlynol:–

| CYFANSWM FFIGWR Y TÂL | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uwch Reolwyr | Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau) (£'000) | | Taliadau Bonws (£'000) | | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn (i'r agosaf £'000)[2] | | Cyfanswm (£'000) | |
| | 2013 -14 | 2012 -13 | 2013 -14 | 2012 -13 | 2013 -14 | 2012 -13 | 2013 -14 | 2012 -13 | 2013 -14 | 2012 -13 |
| Glynne Jones, Cyfarwyddwr † | 80-85 | 75-80 | 5-10 | 5-10 | dim | dim | 43,000 | 24,000 | 130-135 | 105-110 |
| Stephen Hillcoat, Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu | 70-75 | 70-75 | dim | dim | dim | dim | 16,000 | 21,000 | 85-90 | 90-95 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 65-70 | 50-55 | 0-5 | dim | dim | dim | 9,000 | 33,000 | 75-80 | 80-85 |
| Sian Oborne, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi †† | 70-75 | 15-20 | dim | dim | 8,400 | 2,000 | 10,000 | 15,000 | 90-95 | 30-35 |
| Fiona Adams-Jones, Pennaeth Swyddfa Cymru (hyd 31 Rhagfyr 2012)††† | dim | 70-75 | dim | dim | dim | 10,200 | dim | (11,000) | dim | 70-75 |
| Tim Hemmings, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (hyd 16 Gorffennaf 2012) | dim | 15-20 | dim | dim | dim | dim | dim | 2,000 | dim | 15-20 |

**Nodiadau i'r tabl:**

2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn sydd wedi cronni yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) wedi tynnu (cyfraniadau'r unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys ychwanegiadau oherwydd chwyddiant nac unrhyw ychwanegiadau neu ostyngiadau sy'n deillio o drosglwyddo hawliau pensiwn.

† Glynne Jones – cyn ei benodi'n Gyfarwyddwr roedd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyfansoddiad a Dirprwy Bennaeth y Swyddfa hyd fis Gorffennaf 2012 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Polisi hyd 31 Rhagfyr 2012 .

†† Mae Sian Oborne ar fenthyg o Lywodraeth Cymru. Roedd Swyddfa Cymru yn talu costau ei swyddfa a'i chyfleustodau yn Llundain.

††† Roedd Fiona Adams-Jones ar fenthyg o Lywodraeth Cymru. Roedd Swyddfa Cymru yn talu costau ei swyddfa a'i chyfleustodau yn Llundain.

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

| Cyflog | Cyflog heb fonysau (yn cynnwys lwfansau) | | Buddion mewn nwyddau (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 | 2013-14 | 2012-13 |
| David Crawley, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Rheoli a Chyfarwyddwr Anweithredol, Swyddfa Cymru | 10-15 | 10-15 | dim | dim | 10-15 | 10-15 |
| Ian Summers, Cyfarwyddwr Anweithredol, Swyddfa Cymru | 5-10 | 5-10 | dim | dim | 5-10 | 5-10 |

## Lluosrifau Tâl

Mae'n ofynnol bod cyrff adrodd yn datgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad ac enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Roedd cyflog y cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf yn Swyddfa Cymru ym mlwyddyn ariannol 2013–14 yn £80–85k (2012=13, £100–105k). Roedd hyn 2.8 gwaith (2012–13, 3.7 gwaith) cyflog canolrifol y gweithlu, a oedd yn £29,800 (2012–13, £24,900).

Yn 2013–14, ni chafodd dim cyflogeion (2012–13, dim) gyflog a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf. Roedd cyflogau'n amrywio o £8,300 i £71,200 (2012–13, £6,700 i £74,500).

Mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân yn seiliedig ar berfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys tâl diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod pensiynau.

Y rheswm am y gostyngiad yng nghyflog y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog mwyaf a lluosrif cyfatebol cyflog canolrifol staff parhaol yn 2013–14 yw bod cyflog cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yn is na chyflog ei ragflaenydd a adawodd yn 2012–13.

| Tâl | 2013-14 | | 2012-13 | |
|---|---|---|---|---|
| Canolrif Staff | Nifer | £'000 | Nifer | £'000 |
| Cyfanswm tâl y Staff Parhaol (heb gynnwys y Cyfarwyddwr uchaf ei dâl) | | 1,590 | | 1,839 |
| Cyfanswm Staff Parhaol (heb gynnwys y Cyfarwyddwr uchaf ei dâl) | *41 | | *47 | |
| | | | | |
| Tâl Canolrifol Staff Parhaol | | 29.8 | | 24.9 |
| | | | | |
| Band cyflog y Cyfarwyddwr Uchaf ei Dâl (gan gynnwys Buddion mewn Nwyddau) | | 82.5 | | 102.7 |
| | | | | |
| Lluosrif o dâl canolrifol y Staff Parhaol | | 2.8 | | 3.7 |

* Nodyn i'r tabl: Nifer y staff ar y gyflogres, heb gynnwys y Cyfarwyddwr uchaf ei dâl, ar 31 Mawrth.

## Iawndal am golli swydd

Ni chafodd dim uwch reolwyr daliadau iawndal yn 2013-14 (£Dim yn 2012-13)

## Contractau Gwasanaeth

| Uwch Reolwyr | Dyddiad cychwyn y contract | Y cyfnod sy'n weddill (blynyddoedd) | Cyfnod rhybudd (misoedd) |
|---|---|---|---|
| Glynne Jones<br>Cyfarwyddwr † | 16 Ionawr 1989 | 19 | 3 |
| Stephen Hillcoat<br>Dirprwy Gyfarwyddwr a Phrif Ysgrifennydd Preifat | 26 Tachwedd 1986 | 20 | 3 |
| Geth Williams<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 2 Tachwedd 1992 | 16 | 3 |
| Sian Oborne<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi | 7 Chwefror 2000 | 32 | 3 |

**Nodiadau i'r tabl:**

Nid oedd contractau'n cael eu rhoi i Uwch Weision Sifil tan 1996; os oedd pobl wedi ymuno cyn cyflwyno contractau, mae'r tabl yn dangos eu dyddiad ymuno.

Y cyfnod sy'n weddill yw un ai cyfnod y contract sy'n weddill ar gontractau tymor penodol neu pryd y bydd unigolyn yn cyrraedd oedran pensiwn.

## Buddion Pensiwn

| Uwch Reolwyr | Pensiwn a gronnwyd a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2014<br>£000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2013<br>£000 | CETV ar 31 Mawrth 2014<br>£000 | CETV ar 31 Mawrth 2013<br>£000 | Cynnydd / gostyngiad gwirioneddol yn y CETV<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Glynne Jones<br>Cyfarwyddwr | 25-30 ynghyd â chyfandaliad 75-80 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad 5-7.5 | 406 | 352 | 28 |
| Stephen Hillcoat<br>Dirprwy Cyfarwyddwr, Y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu | 25-30 ynghyd â chyfandaliad 75-80 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad 2.5-5 | 376 | 344 | 8 |
| Geth Williams Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 15-20 ynghyd â chyfandaliad 45-50 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad 0-2.5 | 276 | 252 | 5 |
| Sian Oborne Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi | 10-15 ynghyd â chyfandaliad 30-35 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad 0-2.5 | 130 | 116 | 3 |
| Fiona Adams-Jones<br>Pennaeth Swyddfa Cymru†† (hyd 31 Rhagfyr 2012) | dim | dim | dim | 935 | dim |
| Tim Hemmings<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi (hyd 30 Mehefin 2012) | dim | dim | dim | 130 | dim |

**Nodiadau i'r tabl:**

Lle nad yw'n berthnasol: ni chyhoeddwyd unrhyw wybodaeth flaenorol.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; tâl neu fonysau ar sail perfformiad; goramser; hawliau neilltuedig i gael pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y caiff ei drethu yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan Swyddfa Cymru ac sydd felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion sydd wedi'u rhoi gan y cyflogwr ac sy'n cael eu hystyried fel tâl trethadwy gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae Sian Oborne ar fenthyg o Lywodraeth Cymru; Swyddfa Cymru sy'n talu ei chostau am swyddfeydd a chyfleustodau yn Llundain.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil, o 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun â buddion wedi'u diffinio; un ai 'cyflog terfynol' (classic, premiwm neu classic plus); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost y buddion hyn ag arian a gaiff ei ddyfarnu gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Gallai aelodau a ymaelododd ar ôl mis Hydref 2002 ddewis naill ai drefniant priodol â buddion wedi'u diffinio neu bensiwn 'prynu arian' o ansawdd da i gyfranddeiliaid gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn cael eu pennu ar gyfradd o 1.5% o'r enillion pensiynadwy yn achos y cynllun classic a 3.5% yn achos y cynlluniau premium, classic plus and nuvos. Mae buddion y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Hefyd, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Yn achos y cynllun premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r classic plus yn gynllun hybrid gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun classic gan mwyaf a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premiwm.

Yn y cynllun nuvos mae aelod yn cronni ei bensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, ac yn syth ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, bydd y pensiwn a gronnwyd yn cael ei uwchraddio yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennwyd yn Neddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn i gyfranddeiliaid. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (yn ddibynnol ar oed yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o blith y rhai a gynigir gan banel o dri darparwr. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu

ond, os bydd yn dewis cyfrannu, bydd y cyflogwr yn talu'r un swm hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd y cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant risg buddion a delir yn ganolog (ar gyfer marwolaeth yn y swydd neu ymddeol o ganlyniad i afiechyd).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod hawl i'w godi pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu wedi mynd heibio oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 oed yn achos aelodau classic, premium a classic plus a 65 i aelodau nuvos.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn y wefan yn www.civilservice.gov.uk/pensions

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog y buddion y mae'r aelod wedi'u cronni yn y cynllun pensiwn ar adeg benodol ar sail asesiad actiwaraidd. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn wrth gefn sy'n daladwy i briod allan o'r cynllun. Mae CETV yn daliad gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun gan ddewis trosglwyddo'r buddion y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i holl gyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid ei gyfnod yn y swydd uwch y mae'r datgeliad yn ymwneud â hi yn unig. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'u cronni o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Dyma'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall. Caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**23 Mehefin 2014**

# 6 Datganiad ar Lywodraethu

Mae'r Datganiad hwn yn egluro ar ba sail y sefydlwyd Swyddfa Cymru; sut mae'n cael ei llywodraethu a'i rheoli; a sut y mae'n atebol am yr hyn a wna. Fe'i bwriedir fel datganiad cynhwysfawr ac addas o'r sail y gall y Swyddog Cyfrifyddu ei ddefnyddio i roi sicrwydd ynghylch gweithrediad priodol y Swyddfa a'i stiwardiaeth ar arian cyhoeddus.

## Statws a rôl Swyddfa Cymru

Sefydlwyd Swyddfa Cymru ar yr un pryd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Ei phrif bwrpas yw cynorthwyo Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hyrwyddo buddiannau Cymru o fewn y Deyrnas Unedig a sicrhau bod y setliad datganoli yng Nghymru'n gweithio'n rhwydd. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod arian sydd wedi'i ddyfarnu i Lywodraeth Cymru gan y Senedd (Grant Bloc Cymru) yn cael ei dalu'n brydlon. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, ac yn yr un modd â'r holl Adrannau Gwladol eraill, mae Swyddfa Cymru yn gyfrifol am wneud trefniadau cadarn ar gyfer llywodraethu a rheoli risg.

Mae ei Chyfarwyddwr wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu.

## Diben y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, y mae Swyddfa Cymru yn cael ei chyfarwyddo a'i rheoli drwyddynt, a'r modd y mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n cynnwys y broses a ddefnyddir gan Weinidogion ac uwch reolwyr i fonitro'r gwaith o gyflawni ei hamcanion a barnu a yw gweithgareddau'r Swyddfa wedi arwain at ganlyniadau priodol a chost effeithiol. Mae'r fframwaith yn ymgorffori system gadarn i ganfod a rheoli risgiau.

## Y fframwaith llywodraethu

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol i Swyddfa Cymru ac mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n cael ei gynorthwyo gan ddau Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymru; un yn Nhŷ'r Cyffredin ac un yn Nhŷ'r Arglwyddi, a chan dîm bach o weision sifil o dan arweiniad Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru.

## Y Bwrdd Strategaeth

Mae Bwrdd Strategaeth Swyddfa Cymru yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau polisi'r Adran ac am gytuno ar amcanion busnes. Mae'n cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei gyfrifoldebau i'r Senedd, ond yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n atebol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y tîm Gweinidogol, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gadeirydd; dau aelod bwrdd anweithredol annibynnol. Mae'r Prif Gyfrifydd a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol yn mynychu

holl gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd Strategaeth er mwyn cynnig cyngor ar faterion ariannol a llywodraethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Bwrdd Strategaeth ym mis Gorffennaf 2013 a Chwefror 2014, o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn 2013-14, bu'r Bwrdd Strategaeth yn adolygu ac yn cytuno ar ddiweddariad i Gynllun Busnes yr Adran. Mae'r Cynllun Busnes hwn a ddiweddarwyd yn parhau i ddangos blaenoriaethau, amcanion a phrif weithgareddau'r Adran.

Cynhaliwyd adolygiad o weithdrefnau llywodraethu'r Adran gan yr aelod bwrdd anweithredol arweiniol yn ei rôl fel dirprwy gadeirydd y Bwrdd Strategaeth yng ngwanwyn 2013. Cyflwynwyd canlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd Strategaeth yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, a'r casgliad oedd bod y system lywodraethu ddiwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2012 wedi gwneud dechrau da ac nad oedd achos dros wneud newidiadau sylweddol. Derbyniwyd yr holl argymhellion gan gynnwys yr angen i roi ystyriaeth ffurfiol i risgiau strategol ym mhob cyfarfod, a chynllunio cyfarfodydd yn well.

Hefyd, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael cyfarfodydd dwyochrog wythnosol â'r Cyfarwyddwr i drafod polisi, strategaeth a materion Adrannol. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cadeirio cyfarfodydd wythnosol â'r tîm Gweinidogol ac uwch reolwyr llawn a oedd yn cydlynu ac yn trafod busnes Adrannol a Gweinidogol arfaethedig.

## Pwyllgorau sy'n Adrodd i'r Bwrdd Strategaeth

Mae'r Bwrdd Strategaeth yn cael ei gynorthwyo gan ddau bwyllgor:-

**I. Y Pwyllgor Rheoli** – Caiff y pwyllgor hwn ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr ac mae'n cynnwys tri dirprwy gadeirydd yr Adran a dau aelod bwrdd anweithredol. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Rheoli'n cynnwys:-

- Rhoi cydarweiniad gweithredol effeithiol i'r Swyddfa, o dan arweiniad a chyfarwyddyd Bwrdd Strategaeth Swyddfa Cymru;
- Goruchwylio'r gwaith o gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gweinidogion, fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes Swyddfa Cymru, a rheoli'r prif risgiau cysylltiedig;
- Sicrhau bod asedau ac adnoddau ariannol Swyddfa Cymru yn cael eu rheoli'n ddarbodus ac effeithiol.

Drwy gydol 2013–14, roedd y gwaith o gyflawni polisïau a pherfformiad yn cael eu goruchwylio gan y Pwyllgor Rheoli.

**II. Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)** – Mae'r ARAC yn cael ei gadeirio gan yr aelod bwrdd anweithredol arweiniol, ac mae'n cynnwys un aelod bwrdd anweithredol arall – sy'n gyfrifydd cymwysedig – ac, ers mis Mawrth 2014, aelod annibynnol arall (sydd wedi cymryd lle uwch swyddog Swyddfa Cymru a oedd yn aelod o'r pwyllgor hyd Ragfyr 2013). Mae penodiad aelod annibynnol arall yn sicrhau bod aelodaeth Pwyllgor Archwilio Swyddfa Cymru

yn cydymffurfio â'r canllaw gofynnol. Mae'r Pwyllgor hwn yn gweithredu'n unol â Llawlyfr y Trysorlys i Bwyllgorau Archwilio ac mae'n cwrdd bob chwarter. Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad llawn o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Medi 2013, gan ofyn am farn archwilwyr mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn gweithredu'n effeithiol yn amodol ar fân addasiadau yn ei brosesau.

Roedd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth, y Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

## Y Bwrdd Strategaeth

| Aelod/yn Bresennol | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS** – Cadeirydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 2 o 2 |
| **Stephen Crabb AS** – Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymru | 2 o 2 |
| **Y Farwnes Randerson** – Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymru | 2 o 2 |
| **David Crawley** – Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol Arweiniol | 2 o 2 |
| **Ian Summers** – Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol | 2 o 2 |
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr, Cadeirydd | 2 o 2 |
| **Stephen Hillcoat** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu | 2 o 2 |
| **Sian Oborne** – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi | 2 o 2 |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 2 o 2 |

## Y Pwyllgor Rheoli

| Aelod/yn Bresennol | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr, Cadeirydd | 5 o 5 |
| **David Crawley** – Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol Arweiniol | 5 o 5 |
| **Ian Summers** – Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol | 5 o 5 |
| **Stephen Hillcoat –** Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu | 4 o 5 |
| **Sian Oborne** – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi | 5 o 5 |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 5 o 5 |

Mae'r Prif Gyfrifydd a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd Strategaeth er mwyn cynnig cyngor ar faterion ariannol a llywodraethol.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

| Aelod | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **David Crawley** – Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol Arweiniol | 4 o 4 |
| **Ian Summers** – Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol | 4 o 4 |
| **Sian Oborne**[1] – Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Polisi | 3 o 4 |
| **Chris Southworth**[2] – Aelod Annibynnol | 2 o 4 |

Troednodiadau

**Nodyn 1:** Gadawodd y Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Dros Dro y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2013

**Nodyn 2:** Mae Chris Southworth yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Economi o Swyddfa Gogledd Iwerddon. Fe'i penodwyd ar y Pwyllgor ym mis Mawrth 2014, ond roedd yn bresennol yng nghyfarfod Rhagfyr 2013 fel sylwedydd.

## Pwyllgor Arall

Mae gan Swyddfa Cymru hefyd Bwyllgor Iechyd a Diogelwch (H&S), a chylch gwaith y Pwyllgor hwnnw yw:

- Cynghori'r Pwyllgor Rheoli i sicrhau bod Swyddfa Cymru yn darparu amgylchedd gwaith iach a diogel i'w staff, Gweinidogion ac ymwelwyr;
- Rheoli risgiau iechyd a diogelwch a nodwyd a monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol; a
- Gwella perfformiad a safonau iechyd a diogelwch, ac ymdrechu i ragori ar yr holl safonau statudol, y codau ymarfer a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, o dan gadeiryddiaeth dirprwy gyfarwyddwr, unwaith yn ystod 2013-14. Bu'n edrych ar ystod o faterion, gan gynnwys hyfforddi staff mewn cyfrifoldebau wardeiniaid tân.

## Rôl y Swyddog Cyfrifyddu

Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yw ei Swyddog Cyfrifyddu. Yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo yn ei lythyr penodi, ac fel yr amlinellir yn Managing Public Money, ef sy'n gyfrifol am lywodraethu Swyddfa Cymru.

Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu ymgymryd â chyfrifoldeb personol am:-

- Rheoleidd-dra a phriodoldeb, gan gynnwys gofyn am gymeradwyaeth Trysorlys EM am unrhyw wariant y tu allan i ddirprwyaethau arferol;
- Fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, parchu cyllidebau y cytunwyd arnynt ac osgoi ymrwymiadau tymor hir anfforddiadwy;
- Asesiadau gwerth am arian;
- Bod yn atebol i'r Senedd drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC).

Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu sicrhau bod yr Adran yn gweithredu'n effeithiol, yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ac yn arddangos safon uchel o uniondeb. Nod Swyddfa Cymru yw

## Llywodraethu

- Bod â strwythur llywodraethu sy'n cyfleu, yn dirprwyo, yn gweithredu ac yn gorfodi penderfyniadau;
- Bod â mesurau rheoli mewnol dibynadwy i ddiogelu, sianelu a chofnodi'r defnydd gorau o adnoddau yn ôl y bwriad;
- Gweithredu'n briodol gan roi sylw i'r angen am gynnal busnes cyhoeddus yn briodol;
- Trin ei gyflenwyr a'i gymheiriaid busnes yn deg a gonest;
- Darparu cofnodion amserol, tryloyw a realistig o'i fusnes.

## Penderfynu

- Cynorthwyo ei Weinidogion drwy roi cymorth clir, rhesymedig, amserol a diduedd;
- Gwneud ei holl benderfyniadau'n unol â strategaeth, nodau ac amcanion y sefydliad fel yr amlinellwyd gan Weinidogion a/neu mewn deddfwriaeth;
- Cwrdd â gofynion y Trysorlys ynghylch terfynau ar ddefnydd o adnoddau cyhoeddus;
- Rheoli ei staff yn deg, gyda pholisïau cynhwysol sydd â'r nod o hybu ac integreiddio amrywiaeth;
- Cyfleu ei benderfyniadau mewn ffordd agored a thryloyw.

## Rheoli ariannol

- Sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd a phriodol;
- Defnyddio ei adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac effeithiol, gan osgoi gwastraff ac afradlondeb;
- Cynnal arfarniad caffael a phrosiect mewn ffordd wrthrychol a theg, gan ymdrechu i sicrhau gwerth da i'r sector cyhoeddus cyfan;
- Defnyddio systemau gwybodaeth rheoli i gael sicrwydd ynghylch gwerth am arian ac ansawdd cyflenwi er mwyn gwneud addasiadau amserol;
- Osgoi gorfanylu a gosod costau gormodol am gydymffurfio, ar ei staff ei hun neu ei gwsmeriaid a rhanddeiliaid;
- Bod a threfniadau ysgrifenedig ymarferol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill;
- Defnyddio gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol i wella ei reolaeth ariannol, ei fesurau rheoli mewnol a'i berfformiad.

## Penderfynu a rheoli busnes

Mae Swyddfa Cymru wedi'i threfnu'n dair is-adran i gyflawni ei swyddogaethau:

1. Polisi a Deddfwriaeth;
2. Y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu;
3. Y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr yn bennaeth ar bob un o'r rhain ac roedd yn adrodd i'r Cyfarwyddwr. Cafodd cyllidebau ffurfiol eu dirprwyo gan y Cyfarwyddwr i bob Dirprwy Gyfarwyddwr yn eu rolau fel penaethiaid is-adran.

Roedd cyllidebau is-adrannol yn cael eu monitro'n fisol gan yr uwch dîm ac roedd y Pwyllgor Rheoli'n adolygu ac yn trafod adroddiadau ariannol bob deufis. Roedd yr uwch dîm rheoli'n cwrdd yn wythnosol i oruchwylio a chydlynu busnes o ddydd i ddydd, materion rheoli, a materion cyllidebol.

Mae gan yr Adran Gytundebau Lefel Gwasanaeth â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer y rhan fwyaf o'i hanghenion caffael ac ar gyfer pob math o wasanaethau ar gyfer staffio, adeiladau a materion ariannol. Weithiau, ond yn anaml, bydd yn cynnal prosesau caffael bach unigol drosti ei hun, o dan reolau caffael y Llywodraeth.

## Perfformiad

Cafwyd adolygiadau Archwilio Mewnol ar y canlynol yn ystod y flwyddyn: effeithlonrwydd a rheoli newid, rhoi prawf ar drafodion a'r gyflogres, rheoli presenoldeb ac adolygu prosesau Rhyddid Gwybodaeth a Chwestiynau Seneddol.

Daeth Archwiliad Mewnol i'r casgliad eu bod yn ôl yr adolygiadau a gynhaliwyd yn gallu rhoi lefel uchel o sicrwydd bod risg gyffredinol, mesurau rheoli a fframwaith llywodraethu'r Adran yn ddigonol i'w galluogi i gyflawni ei hamcanion a bod y prif risgiau y mae'r Adran yn eu hwynebu'n cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae enghreifftiau o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Rheoli yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Adolygiad o'r Cynllun Busnes Adrannol;
- Risgiau strategol;
- Perfformiad yr Adran;
- Gwaith cyfalaf yn Nhŷ Gwydyr.

Mae rhai o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys:

- Cofrestrau risg yr Adran a phrosesau llywodraethu;
- Yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Adnoddau;
- Cyfrifon y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rhoddodd Swyddfa Cymru ystyriaeth lawn i ganllawiau Trysorlys EM ar Lywodraethu Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog (Gorffennaf 2011) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau i adlewyrchu ei statws fel Adran annibynnol ond yn unol â'i maint, ei chyllideb a'i swyddogaeth (i ddarparu cymorth a chyngor ar bolisi i Weinidogion Swyddfa Cymru yn hytrach na chyflenwi rhaglenni neu wasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Yr unig feysydd lle nad yw'r Adran yn llwyr gydymffurfio â'r canllawiau yw:

- Nifer yr Aelodau Bwrdd Anweithredol Annibynnol. Ar ôl ystyriaeth ddyladwy gan y Cyfarwyddwr, y Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ac yn dilyn trafodaethau ag Archwilwyr Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol penderfynodd yr Adran beidio â chynyddu nifer yr Aelodau Bwrdd Anweithredol Annibynnol. Y farn oedd bod yr aelodaeth bresennol yn gymesur â maint yr Adran (tua 45 o staff). Mae'r ddau Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol presennol yn meddu ar sgiliau a phrofiad gwerthfawr sy'n arbennig o berthnasol i Swyddfa Cymru. Mae'r Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol arweiniol yn meddu ar brofiad helaeth o gyllid cyhoeddus gan ei fod yn gyn Swyddog Cyfrifyddu ac mae ganddo brofiad cyfredol eang o fod yn aelod Bwrdd ar lefel uwch mewn sefydliadau cyhoeddus ac elusennol pwysig. Mae gan yr ail Aelod Bwrdd Anweithredol Annibynnol – cyfrifydd cymwysedig – brofiad helaeth o gyfrifyddu cyhoeddus ac archwilio ar lefel uwch yn ogystal â gweithredu yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae'r Adran, mewn ymgynghoriad â Swyddfa'r Cabinet, wedi cytuno i ymestyn telerau'r Aelodau Bwrdd Anweithredol Annibynnol presennol i sicrhau eu bod yn cael cyfle i fanteisio ymhellach ar eu profiad gan fod rôl y Cyfarwyddwr yn cael ei llenwi'n barhaol ac yn y cyfnod cyn Etholiad Cyffredinol 2015 a thu hwnt.
- Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys o leiaf dri aelod bu un o uwch swyddogion Swyddfa Cymru yn gwasanaethu fel aelod o'r pwyllgor hyd Ragfyr 2013. O fis Mawrth 2014 ymlaen, penodwyd swyddog o Swyddfa Gogledd Iwerddon fel aelod annibynnol newydd, i gryfhau annibyniaeth y pwyllgor.
- Nid yw Aelodaeth Bwrdd Swyddfa Cymru yn cynnwys rhywun â chymwysterau ariannol. Oherwydd ei maint, mae gan Swyddfa Cymru un gweithiwr proffesiynol â chymwysterau ariannol sy'n mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd Strategaeth er mwyn cynnig cyngor.
- Yn dilyn yr adolygiad diwethaf, penderfynodd y Bwrdd Strategaeth, oherwydd natur y busnes a maint yr Adran, nad oedd achos dros gynnal pedwar cyfarfod y flwyddyn, ac y byddai dau neu dri yn ddigon fel arfer. Cyfarfu'r Bwrdd ddwywaith yn 2013–14.

## Canfod a rheoli risg

Diben system rheolaeth fewnol Swyddfa Cymru yw canfod risgiau i'r busnes a'u rheoli ar lefel resymol. Mae'n seiliedig ar broses barhaus sydd â'r nod o ganfod a blaenoriaethu risgiau er mwyn cyflawni amcanion Swyddfa Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith bosibl, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae cadernid y system hon i'w weld o hyd yn y ffordd y mae'r Adran yn rheoli ei phrif risgiau strategol. Yn 2013-14, mae'r rhain wedi cynnwys trafod ymateb y Llywodraeth i adroddiad cyntaf y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) ar ddatganoli cyllidol i Gymru. Bu Swyddfa Cymru yn cydweithio'n agos â Thrysorlys EM a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) i edrych ar ganfyddiadau'r Comisiwn ac i gydlynu'r gwaith a wnaethpwyd i benderfynu ar ymateb y Llywodraeth. Cafodd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn eu hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd Rheoli'r Adran, gan helpu i sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei roi i'r gwaith a'i fod yn cadw o fewn yr amserlen yn ystod y flwyddyn. Bu'r Adran yn cydlynu'r gwaith hwn wrth iddo gynorthwyo'r Comisiwn pan oedd yn ymgymryd â'i gylch gwaith Rhan II.

Yn yr un modd, dangoswyd ymateb yr Adran i risg yn y camau a gymerwyd gan yr Adran i sicrhau y byddai'n gallu cyflawni'r arbedion oedd eu hangen i reoli ei setliad anodd yn yr Adolygiad o Wariant hyd 2015-16 heb beryglu ei gallu i gyflawni ei hamcanion. Roedd hyn yn golygu cynnal dadansoddiad o ble'r oedd pwysau ar lwythi gwaith yn debygol o ddigwydd yn ystod y tair blynedd nesaf, asesiad o'r gallu cyfredol yn y meysydd hynny ac ymarferiad ailstrwythuro wedi hynny i sicrhau bod adnoddau staff yn cael eu dyrannu'n briodol.

Y brif risg weithredol a ganfuwyd oedd methu â sicrhau taliad i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Adran yn lliniaru'r risg hon drwy ddefnyddio cytundebau lefel gwasanaeth sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer tynnu cyllid i lawr a chynlluniau wrth gefn.

## Y gallu i ddelio â risg

Cafodd risgiau eu canfod a'u cyfleu ar lefel strategol ac ar lefel weithredol gan y Pwyllgor Rheoli ac ar lefel weithio gan y timau yn y tair is-adran. Roedd cofrestrau risg y canghennau'n ategu ac yn cyfrannu at y Gofrestr Risg Adrannol gyffredinol a oedd yn cael ei hadolygu bob deufis gan y Pwyllgor Rheoli ac ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn craffu ar y modd yr ymdriniwyd â'r prif risgiau yn ei gyfarfodydd chwarterol ac roedd yn edrych yn fwy manwl ar risgiau penodol a'r ffordd yr oeddent yn cael eu rheoli.

## Fframwaith risg a rheoli

Roedd gan Swyddfa Cymru Strategaeth a Fframwaith Polisi ar gyfer Rheoli Risg, a oedd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Rheoli, ac a oedd yn seiliedig ar gyngor y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Y prif elfennau oedd:

- Proses ffurfiol i ganfod, gwerthuso, rheoli a rhoi gwybod am risgiau;
- System dadansoddi a chofnodi sy'n pennu risgiau i amcanion, effaith a thebygolrwydd risgiau, camau lliniaru cyfredol ac arfaethedig a pherchnogion risgiau unigol;
- Rhaglen ffurfiol sy'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg;
- Hyfforddiant blynyddol a gweithdai i godi ymwybyddiaeth o reoli risg.

Cafodd effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg eu hategu gan waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch reolwyr a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r argymhellion a wnaethpwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Roedd yr holl fesurau rheoli allweddol, a bennwyd ar ôl asesu'r prif risgiau busnes a'r meysydd ariannol allweddol canlynol wedi eu rhoi ar waith. Yn benodol roedd y rhain yn rhoi cryn sicrwydd:

- Bod gwariant/incwm yn cael ei gofnodi a'i wario a'i dderbyn yn briodol o safbwynt priodoldeb a rheoleidd-dra;
- Bod y gwariant/incwm a oedd wedi'i wario a'i dderbyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithgareddau Swyddfa Cymru;
- Bod gwariant wedi'i ddosbarthu'n briodol a bod gwariant wedi'i drosglwyddo rhwng dosbarthiadau gwariant yn unol â'r Llawlyfr Cyllid;
- Nad oedd rheolau ar ddirprwyo awdurdod ariannol wedi'u torri;
- Bod cyllidebau wedi'u monitro'n rheolaidd, bod gwariant gwirioneddol wedi'i gymharu â rhagolygon, a bod y Pwyllgor Rheoli wedi'i hysbysu am unrhyw amrywiannau;
- Bod mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod asedau Swyddfa Cymru wedi'u diogelu rhag eu defnyddio neu eu gwaredu heb awdurdod;
- Bod gweithdrefnau rheoli ar waith i atal twyll;
- Bod asedau gwybodaeth wedi'u monitro a bod risgiau wedi'u hasesu a'u cofnodi'n briodol a bod ansawdd wedi'i adolygu (gweler yr adran ar sicrhau gwybodaeth isod);
- Bod gweithdrefnau rheoli ar waith ar gyfer yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol am Wybodaeth i ddiogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch gwybodaeth;
- Nad oedd y polisi ar letygarwch a rhoddion wedi'i dorri.

## Risg a Sicrwydd Gwybodaeth

### *Asedau Gwybodaeth*

Nid yw Swyddfa Cymru yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac nid yw'n cadw cronfeydd data mawr o ddata personol. Mae ychydig o ddata personol yn cael ei ddal ar ffurf cofnodion personol a chyllid, a gohebiaeth gan y cyhoedd ac Aelodau Seneddol (ASau), Aelodau Cynulliad (ACau) ac Arglwyddi. Mae gwybodaeth arall a gedwir gan yr Adran yn cynnwys papurau corfforaethol a pholisi, a phapurau Pwyllgorau Cabinet.

### *Risgiau a Rheoli Risgiau*

Mae Swyddfa Cymru wedi nodi'r risgiau canlynol i wybodaeth:

1. Colli gwybodaeth, yn enwedig pan fydd staff yn teithio;
2. Peryglu gwybodaeth drwy fynediad heb ei awdurdodi;
3. Colli neu lygru gwybodaeth oherwydd methiant mewn systemau technegol;
4. Colli gwybodaeth o ganlyniad i ladrad.

Gan mai ychydig yn unig o ddata sensitif sy'n cael ei ddal gan Swyddfa Cymru, nid yw graddfa'r risg mor fawr fel bod angen am strategaethau rheoli arbennig neu gynhwysfawr.

### *Rheoli risgiau*

Risg 1: Colli gwybodaeth, yn enwedig pan fydd staff yn teithio

- Mae staff wedi cael canllaw ar drafod gwybodaeth sy'n benodol i'r Adran, ac sy'n rhestru eu cyfrifoldebau. Bydd staff yn cael eu hatgoffa o bryd i'w gilydd am y rheolau i ddiogelu gwybodaeth pan fyddant yn teithio;
- Mae gan yr Adran bolisi desg glir ar gyfer ein dwy swyddfa sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei storio'n briodol;
- Mae staff wedi'u hysbysu am weithdrefnau i roi gwybod os oes gwybodaeth sensitif ac eitemau fel ffonau clyfar yn cael eu colli.

Risg 2: Peryglu gwybodaeth drwy fynediad heb ei awdurdodi

- Mae system rheoli mynediad ar waith ar gyfer rheoli cofnodion sy'n cyfyngu ar y ffeiliau y gall defnyddwyr eu gweld. Bydd hawliau mynediad yn cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- Mae ffeiliau adnoddau dynol yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinetau dan glo mewn ystafell y gellir ei chloi.

Risg 3: Colli neu lygru gwybodaeth oherwydd methiant mewn systemau technegol

Rydym wedi cael sicrwydd gan gyflenwyr TG y Weinyddiaeth Cyfiawnder, o dan gytundeb lefel gwasanaeth, bod gwybodaeth yn ddiogel, bod copïau wrth gefn o ddata'n cael eu gwneud yn rheolaidd a bod modd eu defnyddio i adfer data os bydd angen; a bod ffeiliau a data hen a darfodedig yn cael eu dinistrio'n ddiogel.

Risg 4: Colli gwybodaeth o ganlyniad i ladrad

- Mae'n ofynnol bod staff yn cadw pob dogfen gyfrinachol mewn cabinetau dan glo. Bydd gwiriad yn cael ei gynnal bob dydd i sicrhau bod pob cabinet wedi'i gloi;
- Diben y polisi desg glir yw atal dogfennau rhag cael eu gadael yn anniogel, ac mae nifer o hapwiriadau wedi dangos bod y polisi'n cael ei ddilyn.

***Canlyniadau yn ystod 2013-14***

Ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod 2013-14. Roedd yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu gwybodaeth erbyn diwedd Mawrth 2014.

## Adroddiad cryno gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Archwilio a Risg

Rhoddodd y Pwyllgor sylw manwl drwy gydol y flwyddyn i faterion cyllid a chyfrifyddu, llywodraethu a rheoli risg Swyddfa Cymru. O ganlyniad i'w waith yn ystod y cyfnod adrodd, gall y Pwyllgor roi lefel uchel o sicrwydd ar ddigonoldeb y trefniadau archwilio ac ar y sicrwydd a roddwyd i'r Swyddog Cyfrifyddu o ran y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli sydd ar waith yn yr Adran.

## Asesiad o'r system rheolaeth fewnol

Ar sail yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod y system reolaeth fewnol yn Swyddfa Cymru yn ddigonol i gyflawni amcanion Swyddfa Cymru. Rhoddir y sicrwydd hwn ar y sail bod camau wedi'u cymryd i leihau neu ddileu'r risg, lle pennwyd bod Swyddfa Cymru yn agored i risg, neu fod natur y risg wedi'i deall yn llawn a'i derbyn.

## Torri Amodau Cyflenwi

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod angen iddo roi adroddiad am achos o dorri Terfyn Cyflenwi'r Senedd ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £-723 (anariannol) fel rhan o'i farn ar reoleidd-dra.

Yr unig reswm yr oedd Swyddfa Cymru angen sicrwydd AME yn 2013-14 oedd er mwyn defnyddio rhwymedigaeth ymddeol yn gynnar a grëwyd yn y blynyddoedd cynt. Roedd sicrwydd AME y gyllideb ym Mhrif Amcangyfrif Swyddfa Cymru yn gyllideb negyddol o £-20,000. Fel rhan o'r broses Amcangyfrifon Atodol, sef yr unig gyfle sydd ar gael yn ystod y flwyddyn i newid y cyfyngiadau cyflenwi, cododd Swyddfa Cymru ei sicrwydd AME £-2,000, i £-22,000. Gofynnwyd am y

cynnydd o £-2,000 er mwyn sicrhau bod gan yr Adran sicrwydd digonol ar gyfer y cynnydd a ddisgwylir yng ngwerth y defnydd anariannol o'r darpariaethau.

Alldro net Swyddfa Cymru yng nghyswllt defnydd anariannol o ddarpariaethau yn 2013-14 oedd £-21,277 a oedd £-723 yn is na sicrwydd AME y gyllideb. Mae alldro net negyddol o £-723 yn torri amodau'r AME yn ôl canllawiau Amcangyfrifon Trysorlys Ei Mawrhydi.

Rwyf wedi edrych ar amgylchiadau'r mater hwn gyda fy Mhwyllgor Archwilio ac rwyf yn sicr nad yw'r tor-amod hwn wedi codi yn sgil methiannau yn rheolaeth ariannol Swyddfa Cymru. Paratowyd amcangyfrif realistig a thynn o'r alldro ariannol fel rhan o'r broses Amcangyfrif Atodol gyda'r alldro fymryn yn is na'r gyllideb AME. Rwyf yn falch bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn bwriadu gofyn am eglurhad gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar y canllawiau ar gyllidebau negyddol.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**23 Mehefin 2014**

# 7 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Swyddfa Cymru i baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fydd yn rhestru'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o'r sefyllfa yn Swyddfa Cymru ac o'i halldro adnoddau net, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol bod y Swyddog Cyfrifyddu yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a'i fod yn benodol:

- Yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion perthnasol ynghylch cyfrifyddu a datgelu, ac yn cymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Yn barnu ac yn amcangyfrif ar sail resymol;
- Yn datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwysadwy a geir yn llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn datgelu ac yn egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- Yn paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Cymru. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am warchod asedau Swyddfa Cymru, wedi'u nodi yn *Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM*.

# 8 Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau o Ran Ecwiti'r Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel ei bod wedi'i harchwilio.

## Cyfrifoldebau penodol y Swyddog Cyfrifyddu ac archwilydd

Fel yr eglurwyd yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Yn ôl y safonau hynny, mae'n ofynnol fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol heb gamddatganiadau materol, boed hynny wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Adran ac a ydynt yn cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaethpwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu; cyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ganfod anghysonderau materol o'u cymharu â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau ymddangosiadol sy'n faterol byddaf yn ystyried eu goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Mae'n ofynnol fy mod yn cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad o Gyflenwad Seneddol yn cyflwyno'r alldro'n briodol yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd drostynt ac nad ydynt wedi mynd dros y cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd drostynt yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Di-gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Net am Arian Parod. Mae'n ofynnol i mi hefyd gael digon o dystiolaeth i roi

sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail i'r Farn Amodol ar Reoleidd-dra

Mae'r Senedd wedi awdurdodi terfyn Adnoddau a Reolir yn Flynyddol ar gyfer Swyddfa Cymru o finws £22,000. Yn erbyn y terfyn hwn, cyflawnodd y Swyddfa wariant net o finws £21,277, ac felly torrwyd y terfyn awdurdodedig o £723 fel y dangoswyd yn y Datganiad o Gyflenwad Seneddol.

## Barn Amodol ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio'r gormodedd a ddisgrifiwyd yn y paragraff sail i'r farn ar reoleidd-dra ym mhob agwedd faterol:

- Mae'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol yn cyflwyno'r alldro'n briodol yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol y pleidleisiwyd drostynt ar gyfer y flwyddyn a daeth i ben ar 31 Mawrth 2014 ac mae'n dangos nad oedd y cyfansymiau'n fwy na hynny; ac
- Mae'r incwm a gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Mae rhagor o fanylion am y rheswm am fy marn archwilio amodol wedi eu nodi yn fy adroddiad ar dudalennau 55 i 56.

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion yr Adran ar 31 Mawrth 2014 ac o'i chostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EM o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn adrannau'r Adroddiad Blynyddol o'r enw Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiad Llywodraethu am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd parthed y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni chafwyd cofnodion digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i gael ei harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r cofnodion; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllaw Trysorlys EM.

**Syr Amyas C E Morse** **25 Mehefin 2014**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

## Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

### *Cyflwyniad*

1. Mae Swyddfa Cymru (yr Adran) yn adran weinidogol yn y llywodraeth sy'n gyfrifol am weithredu'r setliad datganoli yng Nghymru, yn cynrychioli Llywodraeth y DU yng Nghymru. Mae'r Adran hefyd yn cynrychioli buddiannau Cymru yn San Steffan.

2. Yn 2013-14 roedd yr Adran yn gyfrifol am £13,487 miliwn o wariant cyhoeddus y DU, gyda £4.38 miliwn yn ymwneud â'i chostau gweinyddol. Mae'r Adran yn sicrhau cymeradwyaeth i wario drwy'r broses cyflenwad seneddol bob blwyddyn. Mae'r Adran yn adrodd i'r Senedd ar ei gwariant o dan gyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r Adran baratoi datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM).

### *Diben yr Adroddiad*

3. Mae'r Adran yn paratoi Amcan Blynyddol o'i gwariant net, mae awdurdodaeth i dynnu'r gwariant net wedyn yn cael ei roi drwy Ddeddfau Seneddol.

4. Mae'r Deddfau hyn yn pennu cyfres o derfynau blynyddol ar y gwariant net na all yr Adran eu torri ac ar gyfanswm yr arian parod y gallant ei ddefnyddio. Os torrir y terfynau hyn, bydd fy marn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol yn amodol. Mae Trysorlys EM wedyn yn paratoi datganiad o bob achos o orwario o'r fath yn y flwyddyn ac yn gofyn i Dŷ'r Cyffredin gymeradwyo'r gwariant, sydd wedyn yn cael awdurdod statudol fel rhan o'r Ddeddf Supply and Appopriations (Anticipation and Adjustments). Mae rhagor o fanylion am y terfynau awdurdodedig i'w cael yn yr Amcangyfrifon Cyflenwad ar gyfer 2013-14.

5. Awdurdododd y Senedd derfyn gwariant Adnoddau a Reolir yn Flynyddol ar gyfer yr adran o finws £22,000. Roedd alldro'r Adran yn erbyn y terfyn hwn yn finws £21,277 sy'n golygu bod y gwariant o £723 dros y terfyn awdurdodedig ac felly mae fy marn ar reoleidd-dra datganiadau'r Adran yn amodol yn hyn o beth. Mae Trysorlys EM yn bwriadu gofyn i'r Senedd awdurdodi £723 pellach o wariant Adnoddau a Reolir yn Flynyddol.

### *Esboniad am y Farn Archwilio Amodol*

6. Mae gan yr Adran ddarpariaeth yn ei Datganiad o Sefyllfa Ariannol i dalu costau ymddeoliadau cynnar y cytunwyd arnynt yn y blynyddoedd blaenorol. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd yr Adran wedi cydnabod rhwymedigaeth o £89,000 ar gyfer costau ymddeoliadau cynnar disgwyliedig yn y dyfodol.

7. Mae defnyddio darpariaethau presennol yn cael ei gyfrif fel gwariant negyddol Adnoddau Blynyddol a Reolir mewn cyflenwad seneddol gyda thaliad cyfartal a chyferbyniol i wariant Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau. Wrth baratoi ei Hamcan, sicrhaodd yr Adran derfyn ar gyfer gwariant Adnoddau

Blynyddol a Reolir o finws £22,000. Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd yr Adran £21,277 yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon gan fod yr Amcan wedi'i dorri o £723. Mae hwn yn swm nad yw'n arian parod.

8. Nid oedd yr Adran wedi torri unrhyw gyfansymiau rheoli eraill. Eraill. Mae wedi cofnodi arbediad yn erbyn yr Amcan o £931,000 yn erbyn ei Therfynau Gwariant Adrannol, arbediad o £193,000 yn erbyn ei Therfyn Di-gyllideb ac arbediad o £1,559,000 yn erbyn ei gofyniad net am arian parod am y flwyddyn.

9. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi adolygu a yw'r amgylchiadau hyn yn dangos unrhyw ddiffygion mewn rheolaeth ariannol neu reolaeth fewnol a daeth i'r casgliad nad ydynt. Gwnaeth ddatgeliadau priodol yn ei Ddatganiad Llywodraethu ar y mater.

***Fframwaith Cyllidebol***

10. Mae'n ofynnol fy mod yn adrodd i'r Senedd ar bob achos o dorri cyfansymiau rheoli, waeth pa mor fychan ydynt, gan fod y Senedd wedi datgan bod y rhain yn derfynau absoliwt y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy. Er hynny, nid dyma'r tro cyntaf i fy marn fod yn amodol ar doriadau bach yn achos cyfansymiau rheoli negyddol. Rwyf felly wedi gofyn i'r Trysorlys ystyried a yw defnyddio mesurau rheoli o'r fath ar gyfer rheoli effaith gyllidebol megis defnyddio darpariaethau yn briodol o hyd ac a yw'r trefniadau'n gweithredu fel y bwriadwyd iddynt weithredu.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**National Audit Office**
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# 9 Cyfrifon

## Datganiad o Gyflenwad Seneddol

Yn ogystal â'r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae'r Government Financial Reporting Manual (FReM) yn disgwyl i Swyddfa Cymru baratoi Datganiad o Gyflenwad Seneddol a nodiadau ategol i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr amcan cyflenwad a gyflwynwyd i'r Senedd, yn achos pob terfyn rheolaeth gyllidebol.

## Crynodeb o'r Alldro Adnoddau a Chyfalaf 2013–14

| | | 2013-14 Amcan | | | 2013-14 Alldro | | | 2013-14 Alldro | 2012-13 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Pleidlais £000 | Dim Pleidlais £000 | Cyfanswm £000 | Pleidlais £000 | Dim Pleidlais £000 | Cyfanswm £000 | drwy bleidlais o'i gymharu â'r amcan: arbediad/ (dros ben) £000 | Cyfanswm £000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | |
| –Adnoddau | SOPS2.1 | 5,220 | – | 5,220 | 4,449 | – | 4,449 | 771 | 5,423 |
| –Cyfalaf | SOPS2.2 | 724 | – | 724 | 564 | – | 564 | 160 | 316 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | |
| –Adnoddau | SOPS2.1 | (22) | – | (22) | (21) | – | (21) | (1) | (20) |
| –Cyfalaf | SOPS2.2 | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | **5,922** | – | **5,922** | **4,992** | – | **4,992** | **930** | **5,719** |
| **Di-gyllideb** | | | | | | | | | |
| –Adnoddau | SOPS2.1 | 13,482,655 | – | 13,482,655 | 13,482,462 | – | 13,482,462 | 193 | 12,786,547 |
| **Cyfanswm** | | **13,488,577** | – | **13,488,577** | **13,487,454** | – | **13,487,454** | **1,123** | **12,792,266** |
| Cyfanswm Adnoddau | | 13,487,853 | – | 13,487,853 | 13,486,890 | – | 13,486,890 | 963 | 12,791,950 |
| Cyfanswm Cyfalaf | | 724 | – | 724 | 564 | – | 564 | 160 | 316 |
| **Cyfanswm** | | **13,488,577** | – | **13,488,577** | **13,487,454** | – | **13,487,454** | **1,123** | **12,792,266** |

**Gofyniad Arian Parod Net 2013 -14**

| | Nodyn | Amcan £000 | Alldro £000 | 2013-14 Alldro o'i gymharu â'r Amcan: arbediad/ (dros ben) £000 | 2012-13 Alldro £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | SOPS4 | 13,488,379 | 13,486,820 | 1,559 | 12,792,506 |

**Costau gweinyddol 2013-14**

| | 2013-14 Amcan £000 | 2013-14 Alldro £000 | 2012-13 Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| SOPS3 | 5,160 | 4,384 | 5,346 |

Mae'r ffigurau mewn print trwm yn gyfansymiau drwy bleidlais o dan reolaeth Seneddol. Hefyd, er nad yw'n derfyn pleidlais ar wahân, bydd gorwario'r gyllideb weinyddol hefyd yn arwain at bleidlais weddilliol.

Eglurir yr amrywiadau rhwng Amcan ac Alldro yn Nodyn 2.2 SOPs ac yn y Adroddiad Strategol ar dudalennau 17 i 18

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau Adrannol (Datganiad o Gyflenwad Seneddol)

### SOPS1. Datganiad Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol a'r nodiadau ategol wedi'u paratoi'n unol â Government Financial Reporting Manual (FReM) 2013–14 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae polisïau cyfrifyddu'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn gydnaws â'r gofynion a bennwyd yn Consolidated Budgeting Guidance and Supply Amcans Guidance Manual 2013–14.

### SOPS1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Mae'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig wedi'u cyflwyno mewn modd sy'n gydnaws â rheolaeth gyllidebol ac Amcanion Cyflenwi'r Trysorlys. Mae cyfanredau ar draws y llywodraeth yn cael eu mesur drwy ddefnyddio Cyfrifon Cenedlaethol, a baratowyd yn unol â fframwaith y cytunwyd arno'n rhyngwladol 'European System of Accounts' (ESA95). Mae ESA95 yn ei dro yn gydnaws â'r System of National Accounts (SNA93), a baratoir o dan nawdd y Cenhedloedd Unedig.

Mae amcanion y system gyllidebu, a chyflwyno Amcanion Cyflenwi a'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol wedi hynny a'r nodiadau cysylltiedig yn wahanol i gyfrifon yn seiliedig ar IFRS. Mae'r system yn ategu cyflawni sefydlogrwydd macro-economaidd drwy sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn cael ei reoli, gydag awdurdod Seneddol perthnasol, i ategu fframwaith cyllidol y Llywodraeth. Mae'r system hon yn cynnig cymhellion i adrannau i reoli gwariant yn dda er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel sy'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae amcanion y Llywodraeth ar gyfer polisi cyllidol wedi'u hamlinellu yn y Siarter Cyfrifoldeb am Gyllidebau. Y rhain yw: sicrhau cyllid cyhoeddus cynaliadwy sy'n hybu hyder yn yr economi, sy'n hyrwyddo tegwch rhwng y cenedlaethau.

- a sicrhau effeithiolrwydd polisi ehangach y llywodraeth;
- cynorthwyo a gwella effeithiolrwydd polisi ariannol i sefydlogi anwadalwch economaidd.

### SOPS1.2 Cymhariaeth â chyfrifon yn seiliedig ar IFRS

Mae llawer o drafodion yn cael eu trin yn yr un ffordd mewn Cyfrifon Cenedlaethol a chyfrifon yn seiliedig ar IFRS, ond mae nifer o wahaniaethau.

### SOPS1.3 Addasiadau Cyfnod Blaenorol (PPAs)

Mae PPAs sy'n deillio o gamgymeriad mewn cofnodi blaenorol, neu o newid mewn polisi cyfrifyddu a wnaethpwyd gan yr adran, bod yn destun pleidlais gan y Senedd yn y flwyddyn gyfredol, tra mae cyfrifon seiliedig ar IFRS (IAS 8)

yn cael eu trin fel addasiadau i flynyddoedd blaenorol. (Nid yw PPAs sy'n deillio o newid mewn polisi cyfrifyddu a gyflwynwyd gan safon cyfrifyddu newydd neu wedi'i addasu wedi'u cynnwys yn yr Amcangyfrifon, felly nid oes camalinio).

## SOPS1.4 Derbyniadau sy'n fwy na'r cytundeb â'r Trysorlys EM

Mae hyn yn weithredol pan fydd Trysorlys EM wedi cytuno ar derfyn i incwm y gall yr adran ei gadw, gydag unrhyw incwm dros hynny'n sgorio y tu allan i gyllidebau, ac felly y tu allan i'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol. Bydd cyfrifon seiliedig ar IFRS yn cofnodi'r holl incwm, beth bynnag fo'r terfyn cyllidebol. Gall y sefyllfa hon godi yn y meysydd canlynol: (i) elw/colled wrth waredu asedau; (ii) incwm a gynhyrchir sy'n fwy na setliadau Adolygiad o Wariant yr adran; (iii) incwm a geir sy'n fwy na chytundebau net.

## SOPS1.5 Darpariaethau – Gwariant Gweinyddol ac ar Raglenni

Nid yw darpariaethau a gydnabyddir mewn cyfrifon seiliedig ar IFRS yn cael eu cydnabod fel gwariant i ddibenion cyfrifon cenedlaethol nes bydd yr union wariant ariannol (neu rwymedigaeth croniadau) wedi'i gydnabod. Er mwyn cwrdd â gofynion cyfrifyddu adnoddau a chyfrifon cenedlaethol, cofnodir data ychwanegol yn y Datganiad o Gyflenwad Seneddol ar draws cyfansymiau rheoli AME a DEL, nad ydynt yn effeithio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Gan fod y cyfansymiau rheoli yn is-gategori DEL, mae gwariant Gweinyddol cyfrifyddu adnoddau a chyfrifon cenedlaethol, cofnodir data ychwanegol yn y Datganiad o Gyflenwad Seneddol ar draws cyfansymiau rheoli AME a DEL, nad ydynt yn effeithio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Gan fod y cyfansymiau rheoli yn is-gategori DEL, mae gwariant Gweinyddol ac ar Raglenni'n cael ei gofnodi yn y yn y Datganiad o Gyflenwad Seneddol yn wahanol i'r hyn a gofnodir yn y cyfrifon seiliedig ar IFRS. Fe'i cysonir yn nodyn SoPS 3.2.

# SOPS2 Alldro net

## SOPS2.1 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf net yn ôl adran

| | Gweinyddu | | | Rhaglen | | | 2013-14 Alldro | 2013-14 Amcan | | | 2012-13 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Crynswth | Incwm | Cyfanswm Net | Crynswth | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm net o'i gymharu â'r Amcan | Cyfanswm Net wedi'i gymharu â'r Amcan wedi'i gymhwyso ar gyfer trosglwyddiadau | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant mewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | | |
| **Gwariant wedi pleidlais** | | | | | | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 3,923 | (30) | 3,893 | 43 | – | 43 | 3,936 | 4,625 | 689 | 689 | 4,861 |
| B Y Comisiwn ar Ddatganoli | 513 | – | 513 | – | – | – | 513 | 595 | 82 | 82 | 562 |
| **Cyfanswm y gwariant wedi pleidlais mewn DEL** | **4,436** | **(30)** | **4,406** | **43** | **–** | **43** | **4,449** | **5,220** | **771** | **771** | **5,423** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | | | |
| **Gwariant wedi pleidlais** | | | | | | | | | | | |
| C Darpariaethau | (21) | – | (21) | – | – | – | (21) | (22) | (1) | (1) | (20) |
| **Cyfanswm y Gwariant wedi Pleidlais mewn AME** | **(21)** | **–** | **(21)** | **–** | **–** | **–** | **(21)** | **(22)** | **(1)** | **(1)** | **(20)** |
| **Gwariant Di-gyllideb** | | | | | | | | | | | |
| D Grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 13,482,462 | – | 13,482,462 | 13,482,462 | 13,482,655 | 193 | 193 | 12,786,547 |
| **Cyfanswm yr Amcan-wariant:** | – | – | – | 13,482,462 | – | 13,482,462 | 13,482,462 | 13,482,655 | 193 | 193 | 12,786,547 |
| **Cyfanswm yr amcan-wariant wedi pleidlais** | **4,415** | **(30)** | **4,385** | **13,482,505** | **–** | **13,482,505** | **13,486,890** | **13,487,853** | **963** | **963** | **12,791,950** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## SOPS2.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf net yn ôl adran

| | 2013-14 Alldro | | | 2013-14 Amcan | | 2012-13 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Crynswth | Incwm | Net | Cyfanswm net | Cyfanswm alldro net gymharu â'r Amcan | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant mewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | |
| **Gwariant wedi pleidlais** | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 564 | – | 564 | 724 | 160 | 316 |
| **Cyfanswm y gwariant wedi pleidlais mewn DEL** | 564 | – | 564 | 724 | 160 | 316 |
| **Cyfanswm ar gyfer yr amcan-wariant:** | **564** | – | **564** | **724** | **160** | **316** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## SOPS3. Cysoni'r alldro â'r costau gweithredol net ac yn erbyn y Gyllideb Weinyddol

## SOPS3.1 Cysoni'r alldro adnoddau net â'r costau gweithredol net

| | Nodyn | 2013-14<br>Alldro<br>£000 | 2012-13<br>Alldro<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro adnoddau yn y Datganiad o Gyflenwad Seneddol** | | | |
| Cyllideb | SOPS2.1 | 4,428 | 5,403 |
| Di-gyllideb | SOPS2.1 | 13,482,462 | 12,786,547 |
| | | **13,486,890** | **12,791,950** |
| **Ychwaneger:** | | | |
| Grantiau cyfalaf (net o gyfraniadau gan yr Undeb Ewropeaidd) | | - | - |
| Arall | | - | - |
| | | - | - |
| **Llai:** | | | |
| Incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | (1) | - |
| Arall | | | |
| | | **(1)** | - |
| **Costau Gweithredu Net yn y Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr** | | **13,486,889** | **12,791,950** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## SOPS3. Cysoni'r alldro â'r costau gweithredol net ac yn erbyn y Gyllideb Weinyddol

### SOPS3.2 Alldro yn erbyn y gyllideb weinyddol derfynol a'r costau gweithredol net gweinyddol

| | Nodyn | 2013-14 £000 | 2012-13 £000 |
|---|---|---|---|
| Terfyn Amcan-gostau Gweinyddol | | 5,160 | 6,106 |
| Alldro - Costau Gweinyddol Crynswth | | 4,415 | 5,355 |
| Alldro - Incwm crynswth yn gysylltiedig â Chostau Gweinyddol | | (30) | (9) |
| Alldro - Costau Gweinyddol Net | | 4,385 | 5,346 |
| Cysoni â'r costau gweithredol: | | | |
| Llai: darpariaethau a ddefnyddiwyd (trosglwyddo o Raglenni) | | - | - |
| Llai: Arall | | (1) | - |
| **Costau Gweithredol Net Gweinyddol** | | **4,384** | **5,346** |

Mae'r rheolaeth Seneddol dros gostau gweinyddol yn berthnasol i adrannau yn unol â Phennod 11 y FReM.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## SOPS4 Cysoni'r Alldro Adnoddau Net yn erbyn y gofyniad arian parod net

| | Nodyn | Amcan | Alldro | Cyf alldro net o'i gymharu â'r Amcan arbediad/ (dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Alldro Adnoddau** | **SOPS2.1** | **13,487,853** | **13,486,890** | **963** |
| **Alldro Cyfalaf** | **SOPS2.2** | **724** | **564** | **160** |
| **Addasiadau i groniadau ac arian parod** | | | | |
| *Addasiadau i ddileu eitemau heb fod yn arian parod:* | | | | |
| Dibrisio | | (100) | (99) | (1) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | | | | |
| Darpariaeth Adrannol heb ei Dyrannu | | | | |
| Gwariant cyfalaf a gefnogir (refeniw) | | | | |
| Addasiadau Cyfnod Blaenorol | | | | |
| Eitemau eraill heb fod yn arian parod | | (120) | (29) | (91) |
| *Addasiadau ar gyfer NDPBs:* | | | | |
| Dileu adnoddau a chyfalaf wedi pleidlais | | | | |
| Ychwanegu cymorth grant arian parod | | | | |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:* | | | | |
| Croniadau cyfalaf | | | (545) | 545 |
| Cynnydd/(lleihad) mewn stoc | | | | |
| Cynnydd/(lleihad) mewn derbynadwyon | | | 12 | (12) |
| (Cynnydd)/lleihad mewn taladwyon | | | 7 | (7) |
| Defnydd o ddarpariaethau | | 22 | 21 | 1 |
| **Dileu eitemau cyllideb dim pleidlais:** | | | | |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol | | | | |
| Addasiadau eraill | | | (1) | 1 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **13,488,379** | **13,486,820** | **1,559** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## SOPS5. Incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol

## SOPS5.1 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ogystal ag incwm a gedwir gan yr adran mae'r incwm canlynol yn ymwneud â'r adran ac yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian parod mewn teip italig).

| | | Alldro 2013-14 | | Alldro 2012-13 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Incwm | *Derbyniadau* | Incwm | *Derbyniadau* |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm gweithredol y tu allan i gwmpasiad yr Amcan – Ernesau yn ôl yn dilyn Etholiadau'r Cynulliad | 5 | 1 | *1* | - | - |
| Incwm Dros Ben | 5 | | | | |
| **Cyfanswm incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | **1** | **1** | **-** | **-** |

## 5.2 Incwm o'r Gronfa Gyfunol

Nid yw incwm o'r Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 5.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gesglir gan Swyddfa Cymru lle'r oedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na phrif gorff. Y symiau a gasglwyd fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol (sydd wedi eu heithrio fel arall o'r datganiadau ariannol hyn) oedd:

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | *25,315* | *21,046* |
| | **25,315** | **21,046** |
| Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol | **25,315** | **21,046** |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | - | - |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | 25,315 | 21,046 |
| Balans ymddiriedol ar ddiwedd y flwyddyn | - | - |

Mae'r incwm am 2013-14 yn codi o ad-daliadau Bethyciadau Myfyrwyr o £25,159,000, Benthyciad Pont Cleddau £100,000 Tai Cymru £9,000, Llog Banc £37,000 ac Incwm Amrywiol Arall £10,000

**Cyfanswm yr incwm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2014:**

| | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm o 2011-12 | | 7 |
| Incwm o 2012-13 | | 27 |
| Incwm o 2013-14 | 25,316 | 21,046 |
| | **25,316** | **21,080** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r incwm a gwariant a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail cro-niadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoe-dd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eto eu cydnabod fel incwm neu wariant.

| | Nodyn | 2013-14 Adran Graidd £000 | 2012-13 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau Gweinyddol:** | | | |
| Costau Staff | 2.1 | 2,761 | 3,056 |
| Costau eraill | 3 | 1,654 | 2,299 |
| Incwm | 5 | (31) | (9) |
| **Gwariant ar Raglenni** | | | |
| Costau Staff | 2.1 | - | |
| Costau eraill | 4 | 13,482,505 | 12,786,604 |
| Llog taladwy NLF | | 1,686 | 1,693 |
| Llog derbynadwy NLF | | (1,686) | (1,693) |
| **Cost Gweithredol Net am y y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014** | | **13,486,889** | **12,791,950** |
| Cyfanswm y Gwariant | | 13,486,920 | 12,791,959 |
| Cyfanswm yr Incwm | | (31) | (9) |
| **Cost Gweithredol Net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014** | | **13,486,889** | **12,791,950** |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr Arall** | | | |
| **Costau Gweithredol Net** | | 13,486,889 | 12,791,950 |
| **Eitemau na chaiff eu hailddosbarthu fel costau gweithredol net:** | | | |
| (Enillion) / colledion net ar ôl ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | | (385) | (95) |
| **Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014** | | **13,486,504** | **12,791,855** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
## Ar 31 Mawrth 2014

Mae'r datganiad hwn yn dangos sefyllfa ariannol Swyddfa Cymru. Mae'n cynnwys tair prif elfen: asedau, sy'n eiddo neu'n cael eu rheoli; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, gwerth gweddilliol yr endid.

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 6 | 4,844 | 3,994 |
| Asedau ariannol | 10 | 11,487 | 11,554 |
| Derbyniadwyon sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 11.1 | 29 | 13 |
| ***Cyfanswm asedau anghyfredol*** | | 16,360 | 15,561 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Derbyniadwyon masnachol ac eraill | 11.1 | 226 | 223 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 9 | 181 | 389 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | 407 | 612 |
| **Cyfanswm Asedau** | | 16,767 | 16,173 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 12.1 | (1,630) | (1,297) |
| ***Cyfanswm rhywmedigaethau cyfredol*** | | (1,630) | (1,297) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol net** | | **15,137** | **14,876** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 13 | (68) | (89) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 12.1 | (11,487) | (11,554) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | (11,555) | (11,643) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **3,582** | **3,233** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 607 | 635 |
| Cronfa ail-brisio | | 2,975 | 2,598 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **3,582** | **3,233** |

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**23 Mehefin 2014**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad Llif Arian
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod Swyddfa Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae Swyddfa Cymru yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod drwy ddosbarthu llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n codi o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth ac i ba raddau y mae'r gweithgareddu gweithredol hyn yn cael eu hariannu drwy incwm gan dderbynwyr gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn dangos y mewnlif ac all-lif arian parod a wnaethpwyd ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran yn y dyfodol. Mae llif arian sy'n codi yn sgil gweithgareddau cyllido yn cynnwys Cyflenwad Seneddol a ffynonellau llif arian eraill, gan gynnwys benthyca.

| | Nodyn | 2013-14 £000 | 2012-13 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Costau gweithredol net | SOCNE | (13,486,889) | (12,791,950) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | 3 | 128 | 108 |
| (Cynnydd)/Lleihad mewn derbyniadwyon masnachol ac eraill | 11.1 | (19) | 60 |
| *Llai: Symudiadau mewn derbyniadwyon yn ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr* | | 7 | 7 |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn taladwyon masnachol | 12.1 | 266 | (290) |
| *Llai: Symudiadau mewn taladwyon yn ymwneud ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr* | | (273) | (105) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 13 | (21) | (20) |
| ***Llif arian parod net o weithgareddau gweithredol*** | | **(13,486,801)** | **(12,792,190)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | | (19) | (316) |
| (Ad-dalu benthyciadau) gan gyrff eraill | | 59 | 52 |
| ***Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi*** | | **40** | **(264)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) - y Flwyddyn Gyfredol | | 13,486,612 | 12,792,697 |
| Ad-dalu benthyciadau o'r NLF | | (59) | (52) |
| ***Ariannu net*** | | **13,486,553** | **12,792,645** |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | (208) | 191 |
| Derbyniadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd y tu allan i gwmpas gweithgareddau'r Adran Taliadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | SOPS5 | 25,316 | 21,046 |
| Taliadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | SOPS5 | (25,316) | (21,080) |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 9 | **(208)** | **157** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 9 | **389** | **232** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 9 | **181** | **389** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr
## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

Mae'r tabl datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan Swyddfa Cymru, wedi'u dadansoddi fel 'cronfeydd wrth gefn cyffredinol' (h.y. y rhai hynny sy'n dangos cyfraniad gan y Gronfa Gyfunol). Mae ariannu a'r balans o ddarparu gwasanaethau wedi'u cofnodi yma. Mae'r Gronfa Ailbrisio yn adlewyrchu'r newid mewn gwerthoedd asedau nad ydynt wedi'u cydnabod fel incwm na gwariant.

| | Nodyn | Y Gronfa Cyffredinol £000 | Y Gronfa Ail-brisio £000 | Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | | **49** | **2,507** | **2,556** |
| Newidiadau yn y polisi cyfrifyddu | | - | - | - |
| **Balans ar 1 Ebrill 2012** | | **49** | **2,507** | **2,556** |
| **Cyllid Seneddol Net** | | | | |
| - Wedi'i dynnu i lawr | | 12,792,697 | - | 12,792,697 |
| - Tybiedig | | 198 | - | 198 |
| Cyflenwad heb ei wario wedi'i dynnu i lawr sydd i'w ad-dalu i'r Gronfa Gyfunol | 12.1 | (389) | - | (389) |
| CFERs payable to the Consolidated Fund | | - | - | - |
| CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | SOCNE | (12,791,950) | - | (12,791,950) |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn** | | | | |
| - Tâl yr Archwilydd | 3 | 26 | - | 26 |
| **Symudiadau Eraill Rhwng Cronfeydd** | | | | |
| - Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | | - | 95 | 95 |
| - Ad-daliadau eraill a godir ar Adrannau'r Llywodraeth yn y flwyddyn flaenorol A30 | | - | - | - |
| **Symudiadau Rhwng y Cronfeydd** | | | | |
| - Arian wedi'i drosglwyddo rhwng cronfeydd | | 4 | (4) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | **635** | **2,598** | **3,233** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2013** | | 635 | 2,598 | 3,233 |
| **Cyllid Seneddol Net** | | | | |
| - Wedi'i dynnu i lawr | SCF | 13,486,612 | - | 13,486,612 |
| - Tybiedig | 12.1 | 389 | - | 389 |
| Cyflenwad heb ei wario ac wedi'i dynnu i lawr sydd i'w ad-dalu i'r Gronfa Gyfunol | 12.1 | (181) | - | (181) |
| CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 5 | (1) | - | (1) |
| Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn | SOCNE | (13,486,889) | | (13,486,889) |
| **Taliadau heb fod yn arian parod** | | | | |
| - Tâl yr Archwilydd | 3 | 29 | - | 29 |
| **Symudiadau Eraill Rhwng y Cronfeydd** | | | | |
| - Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | | - | 385 | 385 |
| - Arall | | 5 | - | 5 |
| **Symudiadau Rhwng y Cronfeydd** | | | | |
| - Arian wedi'i drosglwyddo rhwng y cronfeydd | | 8 | (8) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | **607** | **2,975** | **3,582** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau ar y Cyfrifon am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

## 1. Datganiad polisi cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2013-14 a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu yn y FReM yn dilyn Safonau Rhyngwladol ar Adroddiadau Ariannol (IFRS) fel a addaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FEeM yn rhoi dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol Swyddfa Cymru er mwyn rhoi barn wir a theg. Disgrifir y polisiau penodol sydd wedi eu mabwysiadu gan Swyddfa Cymru isod. Cawsant eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau y tybiwyd iddynt fod yn berthnasol i'r Cyfrifon hyn

Yn ogystal â'r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn disgwyl i Swyddfa Cymru baratoi un datganiad sylfaenol arall. Mae'r Datganiad Cyflenwad Seneddol a'i nodiadau ategol yn adrodd alldro yn erbyn yr Amcan o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net.

Yr arian cyfred a ddefnyddir ac a gyflwynir gan Swyddfa Cymru yw'r bunt sterling Brydeinig (£).

### 1.2 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y Cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, a fel a ddiwygiwyd i ystyried ail-brisio eiddo, peiriannau a chyfarpar a rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol.

### 1.3 Segmentau gweithredol

Ystyrir fod Swyddfa Cymru yn darparu un swyddogaeth ac o ran adrodd o dan IFRS, ystyrir ei bod yn un segment gweithredol.

### 1.4 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

*Sail y prisio*

Caiff asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar (PPE) eu datgan ar sail gwerth teg. Wrth eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau PPE eu mesur ar sail cost gan gynnwys unrhyw gostau y dylid eu priodoli'n.

### *Dull y prisio*

Mae gan Swyddfa Cymru un ased eiddo – Tŷ Gwydyr – sydd wedi'i gynnwys ar sail gwerth teg, fel a ddehonglir gan y FReM ac ar sail prisiad proffesiynol a gyflawnir unwaith pob pum mlynedd o leiaf.

Cyflawnir prisiadau proffesiynol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn defnyddio Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), a elwir y 'Llyfr Coch'.

Rhwng prisiadau proffesiynol, mae'r gwerthoedd ar bapur yn cael eu haddasu drwy ddefnyddio mynegeion neu drwy wneud prisiadau pen-desg.

Mae Tŷ Gwydyr wedi'i ddosbarthu fel adeilad rhestredig gradd 2* wedi'i brisio ar sail 'Defnydd Presennol, yn unol â'r Llyfr Coch, gan ystyried darfodaeth swyddogaeth yr eiddo.

Mae asedau di-eiddo'n cael eu cynnwys ar sail eu cost pan brynir hwy ac yn cael eu hail-ddatgan ar bob dyddiad adrodd yn defnyddio'r Mynegrifau Pris ar gyfer Cyfrifyddu Costau Cyfredol (PINCCA) a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### *Ail-brisio*

Pan fydd gwerth ar bapur ased yn cynyddu'n dilyn ail-brisio, mae'r cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel ei fod yn gwyrdroi'r lleihad yn dilyn ail-brisio'r un ased a gafodd ei gydnabod yn flaenorol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ail-brisio fel ecwiti Trethdalwyr.

Pan fydd gwerth ar bapur ased yn lleihau (ac eithrio o ganlyniad i leihad parhaol), mae'r lleihad yn cael ei gydnabod yn y Gronfa Ail-brisio fel bod balans yn bodoli yng nghyswllt yr ased hwnnw. Mae unrhyw leihad pellach sy'n fwy na'r gweddill ail-brisio'n cael ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Pob blwyddyn, mae'r gwahaniaeth rhwng dibrisio ar sail gwerth ar bapur yr ased wedi'i ail-brisio a godir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a'r dibrisiad ar sail cost wreiddiol yr ased, yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Ail-brisio i'r Gronfa Gyffredinol.

### *Trothwy Cyfalafu – asedau unigol*

Mae trothwy cyfalafu Swyddfa Cymru ar gyfer asedau unigol yn £1,000 (gan gynnwys TAW).

### *Trothwy Cyfalafu – asedau grŵp*

Mae gan Swyddfa Cymru gronfa fach o asedau ar gyfer dodrefn a ffitiadau sydd wedi cael eu cyfalafu.

Mae Swyddfa Cymru yn cymhwyso trothwy cyfalafu ar gyfer asedau grŵp, sef £10,000 (gan gynnwys TAW).

*Dibrisio*

Mae dibrisio'n cael ei godi ar saith llinell syth ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau, llai eu hamcan-werth gweddilliol, yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig neu, ar gyfer asedau ar brydles, dros oes y brydles neu'r cyfnod sydd ymhlyg yn y rhaglen ad-dalu. Mae oes ddefnyddiol yr asedau neu'r categoriau asedau'n cael eu hadolygu'n flynyddol a chaiff unrhyw newidiadau eu trafod â'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod y goblygiadau cyllid wedi eu hystyried yn briodol. Lle cytunir ar newid yn oes ased, mae'r ased yn cael ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei oes fel a aseswyd. Mae dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl prynu ased anghyfredol yn achos tir, adeiladau a thai, ac o fewn chwe mis yn achos unrhyw asedau anghyfredol eraill.

Mae oes ddefnyddiol dybiedig ased o fewn yr ystodau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliad | Ddim yn cael ei ddibrisio |
| Adeiladau rhydd-ddaliad (gan gynnwys aneddiadau) | Yn cael eu dibrisio dros oes yr asedau (hyd at 60 mlynedd) |
| Asedau grŵp | Yn amrywio gan ddibynnu ar asedau unigol |
| Technoleg gwybodaeth | Y byrraf o dymor prydles sydd ar ôl neu rhwng 3 a 15 mlynedd |
| Peiriannau a chyfarpar | Y byrraf o dymor prydles sydd ar ôl neu rhwng 3 ac 20 mlynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | Y byrraf o dymor prydles sydd ar ôl neu rhwng 5 ac 20 mlynedd |
| Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu | Ddim yn cael eu dibrisio |

Mae'r gwerthoedd ar bapur yn cael eu hadolygu ar gyfer amhariad os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu na ellir ad-ennill y gwerth ar bapur. Os tybir fod ased wedi dioddef amhariad, caiff yr ased ei ddileu'n syth i'r swm y gellir ei ad-ennill.

*Gwaredu asedau anghyfredol*

Caiff enillion a cholledion wrth waredu asedau anghyfredol eu pennu drwy gymharu'r elw gyda'r gwerth ar bapur a chaiff y rhain eu cydnabod o dan gostau Gweinyddol neu Raglenni, fel y bo'n briodol, yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Pan werthir yr asedau sydd wedi eu hail-brisio, caiff y symiau gafodd eu cynnwys yn y gronfa Ail-brisio eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.5 Asedau sydd wrthi'n cael eu creu

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu creu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau Anniriaethol, ac nid ydynt yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Mae ased yn peidio â bod yn ased sydd wrthi'n cael ei greu pan fydd yn barod i'w ddefnyddio. Mae ei werth ar

bapur yna'n cael ei dynnu o'r asedau sydd wrthi'n cael eu creu ac yn cael ei drosglwyddo i'r categori asedau perthnasol. Mae dibrisio ac amorteiddio yna'n cael ei godi ar yr ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol.

Mae gwariant yn cael ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gael ased yn barod i'w ddefnyddio. Mae costau staff Swyddfa Cymru yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, felly hefyd costau asiantaeth a staff contract sy'n cyflawni rolau parhaus a fyddai, fel arall, yn cael eu cyflawni gan weision sifil. Mae gwariant ar ymgynghorwyr allanol a gyflogir ar brosiectau penodol yn cael ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gael ased yn barod i'w ddefnyddio.

## 1.6 Asedau Anniriaethol

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw asedau anniriaethol.

## 1.7 Prydlesi

### *Prydlesi ariannol*

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw brydlesi ariannol.

### *Prysdlesi gweithredol*

Gelwir prydlesi lle mae'r holl risgiau a'r gwobrwyon, fwy neu lai, yn cael eu dal gan y prydlesydd, yn brydlesi gweithredol. Mae rhenti prydlesi gweithredol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

### *Trefniadau sy'n cynnwys prydles*

Wrth benderfynu a yw Swyddfa Cymru yn barti mewn prydles, mae contractau nad ydynt ar ffurf prydles gyfreithiol ond sydd efallai'n cynnwys prydles ynddynt, er enghyraifft trefniadau contractio allanol a chontractau cymryd-neu-dalu, yn cael eu hasesu'n unol â'r meini prawf a nodir gan IFRIC (y Pwyllgor Rhyngwladol ar Ddehongli Adroddiadau Ariannol) 4 'Penderfynu a yw Trefniant yn Cynnwys Prydles'. Cyfrifir am y contract fel prydles os yw cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio ased neu asedau penodol ac mae'r trefniant yn rhoi hawl i ddefnyddio'r ased. Mae'r trefniant yna'n cael ei asesu o dan IAS 17 i benderfyunu a yw'n cael ei ddosbarthu fel prydles weithredol neu brydles ariannol.

## 1.8 Buddsoddiadau

### *Y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF)*

Mae blaensymiau o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF) yn cael eu trin fel buddsoddiadau ac yn cael eu datgelu ar sail eu cost hanesyddol. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau o'r NLF a fenthyciwyd ymlaen gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn wreiddiol i Gorfforaeth Ddatblygu Canolbarth Cymru. Cawsant yna eu pasio ymlaen i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn y 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan gafodd DBRW ei ddirwyn i ben ym 1998. Ar ôl diddymu'r WDA yn 2006, daeth Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ad-dalu'r prif swm a'r llog a chodir tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru yn cael eu hildio i'r NLF. Mae balansau benthyciad heb eu talu'n cael eu cynnwys mewn Taladwyon masnachol ac eraill.

## 1.9 Buddion Gweithwyr

*Croniadau gwyliau gweithwyr*

O dan IAS 19 'Buddion Gweithwyr', gwneir croniadau ar gyfer gwyliau blynyddol ac absenoldeb hyblyg. Ni wneir croniadau ar gyfer bonysau perfformiad oherwydd nid oedd y broses arfarnu flynyddol sy'n penderfynu tâl yn ôl perfformiad wedi'i chytuno'n derfynol ar adeg paratoi'r Cyfrifon hyn.

*Pensiynau*

Darperir ar gyfer gweithwyr blaenorol a phresennol o dan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Nid yw'r cynlluniau buddion diffiniedig wedi eu hariannu ac maent yn anghyfrannol ac eithrio yng nghyswllt buddion dibynyddion. Mae'r Adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaeth gweithwyr drwy dalu i'r PCSPS symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth am dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei chodi ar y PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffinedig, mae'r adran yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

*Costau gadael yn fuan*

Nid yw Swyddfa Cymru yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r staff un naill ai'n staff y Weinyddiaeth Cyflawnder neu Lywodraeth Cymru, a'r adrannau hyn sy'n gyfrifol am dalu'r costau ychwanegol dros y PCSPS arferol ar gyfer staff sy'n ymddeol yn gynnar. Mewn amgylchiadau penodol lle mae Swyddfa Cymru wedi cytuno i dalu'r costau, telir costau gadael yn fuan yn llawn ar yr adeg pan fydd y cytundeb hwnnw'n rhwym. Mae'r llif arian amcangyfrifiedig, wedi'u addasu ar gyfer risg, yn cael ei ddisgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM, sef 1.8% (2012–13: 2.35%) mewn termau real os yn brethnasol.

## 1.10 Incwm Gweithredol

Mae incwm gweithredol yn cynnwys incwm sydd wedi'i ennill gan yr Adran ac incwm sy'n cael ei ildio ar ôl ei dderbyn i'r Gronfa Gyfunol fel Derbyniadau Ychwanegol.

## 1.11 Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol (CFERs)

Mae balansau CFERs yn cael eu cyfrifo ar sail croniadau, oni nodir yn wahanol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â symiau a dderbyniwyd yn wreiddiol gan gyrff datganoledig yng Nghymru a ddynodwyd gan y Trysorlys o dan Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Telir y symiau hyn gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol a chodir ar Gronfa Gyfunol Cymru amdanynt. Mae Swyddfa Cymru hefyd yn derbyn symiau drwy adennill ernesau a gollwyd yn etholiadau'r Cynulliad. Mae Swyddfa Cymru yn talu'r symiau a gafwyd i Gronfa Gyfunol y DU.

## 1.12 Gwariant Gweinyddol ac ar Raglenni

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys gwariant gweinyddol ar gostau rhedeg Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â gwariant rhaglen ar dreuliau'r Arglwyddi Rhaglaw sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 1.13 Costau heb fod yn arian parod

*Ffioedd Archwilio*

Mae costau heb fod yn arian parod yn cynnwys ffi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) am archwilio'r datganiadau ariannol.

## 1.14 Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod pan fydd gan Swyddfa Cymru ymrwymiad cyfreithiol neu ymrwymiad adeiladol, o ganlyniad i ddigwyddiadau blaenorol, lle mae'n debyg y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r ymrwymiad, a lle gellir rhoi amcan dibynadwy o faint yr ymwymiad hwnnw.

Mae darpariaethau'n adlewyrchu'r amcan gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r ymrwymiad. Lle mae effaith disgowntio'n berthnasol, caiff y darpariaethau eu mesur ar sail eu gwerth presennol yn defnyddio'r gyfradd real a bennir gan Drysorlys EM, sef 2.2% ar hyn o bryd; yn 2012-13 roedd y gyfradd yn 2.2%.

## 1.15 Treth ar Werth (TAW)

Mae TAW na ellir ei adennill yn cael ei godi ar y categori gwariant perthnasol neu'n cael ei gynnwys yng nghostau prynu cyfalafedig unrhyw asedau anghyfredol. Lle codir treth allbwn neu lle gellir adennill treth mewnbwn, mae'r symiau'n cael eu datgan net o Dreth ar Werth.

## 1.16 Offerynnau Ariannol

Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi o gontractau i brynu a gwerthu eitemau anariannol (fel nwyddau neu wasanaethau), a luniwyd yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio arferol Swyddfa Cymru, yn cael eu cydnabod pan gaiff y rhain eu perfformio ac ar sail graddau'r perfformiad hwnnw. Mae unrhyw asedau a rhwymedigaethau ariannol eraill yn cael eu cydnabod pan ddaw Swyddfa Cymru yn barti i'r darpariaethau contractio i dderbyn neu wneud taliadau arian parod. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dat-gydnabod pan fo'r contract perthnasol yn cael ei setlo, ei werthu, ei ganslo neu'n dod i ben.

*Dosbarthu a mesur – asedau ariannol*

Yn ogystal ag arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, mae gan Swyddfa Cymru ddau gategori o asedau ariannol:

*Benthyciadau a derbyniadwyon*

Mae benthyciadau a derbyniadwyon yn cynnwys derbyniadwyon masnachol, derbyniadwyon a benthyciadau eraill sydd â thaliadau sefydlog neu fesuradwy nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol. Mae benthyciadau a derbyniadwyon yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth teg ac maent wedyn yn cael eu mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio dull llog effeithiol net o unrhyw amhariad. Mae llog yn cael ei gydnabod drwy weithredu'r gyfradd llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw dull o gyfrifo cost wedi'i hamorteiddio ased ariannol ac o ddyrannu'r refeniw llog neu gost dros y cyfnod perthnasol drwy ddefnyddio amcan o lif arian i ddod.

## 1.17 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod a gofnodir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Llif Arian yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon a gedwir gyda'r banciau, buddsoddiadau hylifol tymor byr eraill oedd i aeddfedu'n wreiddiol o fewn tri mis neu lai, a gorddrafftiau gyda'r banc.

## 1.18 Amcangyfrifon a thybiaethau cyfrifyddu sylweddol

Mae'r Cyfrifon yn adlewyrchu amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Fel yr awgryma'r enw, nid yw amcangyfrifon yn debygol o fod yr un fath ag union ganlyniadau. Mae amcangyfrifon yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys disgwyliadau ynghylch digwyddiadau i ddod y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Rhoddir sylw isod i'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i werth ar bapur asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

*Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau*

Mae'r darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau a adroddir yn nodyn 13 yn adlewyrchu'r farn am y tebygolrwydd y bydd buddion economaidd, yn y dyfodol, yn trosglwyddo o ganlynad i ddigwyddiadau blaenorol. Lle mae tebygolrwydd y bydd rhwymedigaeth yn crisialu'n debygol o ddigwydd a lle mae'n bosibl mesur yr effaith yn eithaf sicr, mae darpariaeth yn cael ei chydnabod. Lle mae'r tebygolrwydd y bydd rhwymedigaeth yn crisiau'n bosibl, datgelir rhwymedigaeth wrth gefn.

*Cyfrifyddu prydlesi*

Mae angen ymarfer barn wrth gategorieddio prydlesi naill ai fel prydlesi gweithredol neu brydlesi ariannol.

Lle mae prydles yn cael ei chymryd am dir ac adeiladau gyda'i gilydd, gellir cyfalafu'r elfennau tir ac adeiladau fel prydlesi ariannol ar wahân os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer prydles ariannol. Os nad yw'r taliadau prydles cytundebol yn cael eu rhannu rhwng y tir a'r adeiladau yng nghontract y brydles, mae'r rhaniad yn cael ei wneud ar sail gwerth marchnad y tir a'r adeiladau ar ddechrau'r brydles.

## 1.19 Cymhwyso arfaethedig safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt wedi dod i rym eto

Mae'n bosibl y gallai'r safonau, y dehongliadau a'r diwygiadau newydd canlynol, na ddaethant i rym eto, gael effaith ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol.

IFRS 9 – Offerynnau Ariannol (mewn grym o'r cyfnodau cyfrifyddu'n dechrau ar neu ar ôl 2015 (yn unol â'r drafft datguddio; a gyhoeddwyd ar 4 August 2011– heb ei fabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd eto). Mae gan y safon hon dri cham; Cam 1, materion dosbarthu a mesur; Cam 2, sut ddylid cyfrifo a chofnodi

amhariad ar asedau ariannol; Cam 3, sy'n rhoi sylw i gyfrifyddu rhagfantoli. Bydd Trysorlys EM yn adolygu effaith yr IAS hwn ar adrannau'r llywodraeth pan fydd IRS terfynol wedi'i gyhoeddi. wedi'i gyhoeddi.

IFRS 13 – Mesur Gwerth Teg (mewn grym ers 1 Ionawr 2013). Paratowyd y safon hon i roi arweiniad cyson ar werthoedd mesur teg ar gyfer yr holl falansau a thrafodion o dan IFRS (ac eithio pan fydd IFRS 13 yn datgan fel arall). Mae defnydd o IFRS 13 yn destun adolygiad pellach gan Drysorlys EM.

IAS 18 Disodli – Cydnabod Refeniw a Chydnabod Rhwymedigaethau (mewn grym yn ddim hwyrach na 1 Ionawr 2015 yn unol â'r Drafft Datgelu. Ailgyhoeddwyd y safon hon yn Nhachwedd 2011, roedd y Datgeliad Drafft yn ymdrech i ddatblygu model cysyniadol sengl, ac egwyddorion cyffredinol i bennu pa bryd y dylai refeniw gael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol – yn disodli IAS 18 ac IAS 11. Bydd Trysorlys EM yn ystyried effaith lawn yr IFRS hwn pan fydd wedi'i gyhoeddi.

Ni ddisgwylir y bydd y safonau uchod sydd i'w mabwysiadu yn cael effaith sylweddol ar Swyddfa Cymru.

## 2. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

## 2.1 Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig

| | | | | | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflogir yn Barhaol a Secondiadau Mewnol | Eraill | Gweinidogion | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 1,917 | 159 | 68 | 52 | 2,196 | 2,471 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 177 | - | 7 | 4 | 188 | 193 |
| Costau pensiwn eraill | 368 | - | - | 9 | 377 | 392 |
| **Is-gyfanswm** | 2,462 | 159 | 75 | 65 | 2,761 | 3,056 |
| Llai symiau wedi'u hadennill yng nghyswllt secondiadau allanol | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Costau Net** | **2,462** | **159** | **75** | **65** | **2,761** | **3,056** |
| | | | | | | |
| Ac o'r rhain: | | | | | | |
| A godir ar Gostau Gweinyddol | 2,462 | 159 | 75 | 65 | 2,761 | 3,056 |
| A godir ar Gostau Rhaglenni | - | - | - | - | - | - |
| | **2,462** | **159** | **75** | **65** | **2,761** | **3,056** |

O'r symiau uchod, y rhai y gellir eu priodoli i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yw:-

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau wythnosol a misol | 212 | 2 | - | - | 214 | 156 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 22 | - | - | - | 22 | 18 |
| Costau pensiwn eraill | 42 | - | - | - | 42 | 30 |
| **Is-gyfanswm** | **276** | **2** | - | - | **278** | **204** |
| Llai symiau sydd wedi'u hadennill yng nghyswllt secondiadau allanol | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm Costau Net** | **276** | **2** | - | - | **278** | **204** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 2.2 Nifer gyfartalog y staff a gyflogir yn Swyddfa Cymru

Dangosir nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod.

| | | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| **Adran Graidd** | | | |
| | **Staff Parhaol** | 46.0 | 52.0 |
| | **Eraill** | 4.0 | 1.0 |
| | **Gweinidogion** | 2.0 | 2.0 |
| | **Cynghorwyr Arbennig** | 1.0 | 1.0 |
| | **Cyfanswm** | **53.0** | **56.0** |
| **Cyfanswm yr Adran Graidd** | | **53.0** | **56.0** |

Roedd nifer gyfartalog y staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2014 yn cynnwys pedwar ar ddeg a oedd ar fenthyg gan adrannau eraill y Llywodraeth gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Hefyd, roedd pedwar staff arall ar fenthyciad wedi'i ariannu i'r Comisiwn ar Ddatganolu yng Nghymru.

Cynllun buddion diffinedig aml-gyflogwr heb ei ariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ond ni all Swyddfa Cymru nodi ei chyfran hi o'r asedau a'r rhwymedigaethau. Cyflawnwyd gwerthusiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007 a cheir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-dal Sifil yn www.civilservice-pensions.gov.uk

Yn 2013-14, talwyd cyfraniadau pensiwn cyflogwr o £377k (2012-13: £329k) i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd rhwng 16.7% a 24.3% (2012-13: 16.7% a 24.3%) o'r cyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob 4 blynedd yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gael eu cronni, nid pan achosir y costau mewn gwirionedd, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

Gall staff ddewis optio allan ac agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talodd y cyflogwr gyfraniadau o £0 (2012-13: £0) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiynau rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oed ac yn amrywio rhwng 3.0% a 12.5%( 2012-13: 3.0% a 12.5%) o'r cyflog pensiynadwy. Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu swm sy'n cyfateb i gyfraniad y gweithiwr hyd at 3.0% o'r cyflog pensiynadwy.

Hefyd, talwyd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr cyfwerth â 0.8% o'r cyflog pensiynadwy i'r PCSPS ar gyfer y gost o dalu cyfansymiau os bydd staff yn marw mewn gwasanaeth a staff yn y cynllun PCSPS sy'n ymddeol ar sail iechyd.

Y cyfraniadau oedd yn ddyledus i ddarparwyr pensiynau partneriaeth ar ddyddiad y cyfnod adrodd oedd £0 (2012-13:£0)

Ni wnaeth unrhyw un ymddeol ar sail iechyd yn 2013-14 (2012-13: Dim).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 3. 3. Costau Gweinyddol Eraill

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|---|
| Swyddfeydd, cynnal a chadw a chyfleustodau | | 518 | 867 |
| Cyfathrebu, nwyddau swyddfa a gwasanaethau | | 51 | 76 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredol: tir ac adeiladau | | 175 | 234 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredol: eraill (peiriannau, peirianwaith, cerbydau ac ati) | | 123 | 137 |
| Taliadau consesiynau gwasanaeth: Arall | | 17 | 28 |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu (trefniadau consesiynau di-wasanaeth) | | 65 | 128 |
| Gwasanaethau eraill wedi'u contractio allan | | 17 | 24 |
| Ffioedd trawsgrifio | | – | 2 |
| Gwasanaethau proffesiynol | | 58 | 61 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 200 | 317 |
| Costau hyfforddiant a staff cysylltiedig | | 36 | 20 |
| Ffioedd a thaliadau banc | | 2 | 2 |
| Gwariant ymchwil a datblygu | | 29 | 67 |
| Gwariant gweinyddol arall | | 89 | 82 |
| Dyrannu gorbenion | | 146 | 146 |
| **Eitemau heb fod yn arian parod** | | | |
| Dibrisio | | 99 | 82 |
| Tâl a threuliau'r Archwilydd | | 29 | 26 |
| **CYFANSWM** | | **1,654** | **2,299** |

***O'r symiau uchod, y rhai i'w priodoli i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yw:-***

| | | |
|---|---|---|
| Swyddfeydd, cynnal a chadw a chyfleustodau | 28 | 157 |
| Cyfathrebu, nwyddau swyddfa a gwasanaethau | 2 | – |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredol: tir ac adeiladau | 69 | 50 |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu (trefniadau consesiynau di-wasanaeth) | 1 | 1 |
| Ffioedd trawsgrifio | – | 2 |
| Teithio a chynhaliaeth | 46 | 29 |
| Costau hyfforddiant a staff cysylltiedig | 7 | 12 |
| Gwariant ymchwil a datblygu | 29 | 67 |
| Gwariant gweinyddol arall | 53 | 40 |
| **CYFANSWM** | **235** | **358** |

Mae'r nodyn hwn yn ymwneud â gwariant Swyddfa Cymru. Bydd y cyfanswm yn gyson fel arfer â'r costau sydd wedi'u cynnwys yng nghostau Gweinyddol y Datganiad o Gyflenwad Seneddol. Gall gwahaniaethau ddeillio o'r modd yr ymdrinnir â darpariaethau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 4. 4. Costau Rhaglenni

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| ***Costau Rhaglenn i- Swyddfa Cymru*** | | |
| Treuliau'r Arglwyddi Rhaglaw | 43 | 57 |
| Ariannu Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 13,482,462 | 12,786,547 |
| **Cyfanswm Costau Rhaglenni** | **13,482,505** | **12,786,604** |

## 5. Incwm

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm rhenti | | 30 | 9 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **30** | **9** |
| **Yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | | |
| Incwm dros ben | | - | - |
| Ernesau ddaeth yn ôl yn dilyn Etholiadau'r Cynulliad | SOPS5.1 | 1 | - |
| **Cyfanswm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | **1** | **-** |
| **Prif Gyfanswm** | | **31** | **9** |
| Ac o hyn | | | |
| Incwm gweinyddol | | 31 | 9 |
| **Cyfanswm** | | **31** | **9** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 6. 6. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Tir | Adeiladau | Peiriannau a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Taliadau ar Gyfrif ac Asedau wrthi'n cael eu Creu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2013–14** | | | | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 2,560 | 1,512 | 152 | 237 | – | 4,461 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 19 | 545 | 564 |
| Ail-brisiadau | 204 | 178 | 5 | 3 | – | 390 |
| Ail-ddosbarthu | – | – | – | – | – | – |
| Ail-ddatgan | – | – | – | – | – | – |
| Trosglwyddo | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **2,764** | **1,690** | **157** | **259** | **545** | **5,415** |
| **Dibrisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | – | (272) | (105) | (90) | – | (467) |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | – | (57) | (26) | (16) | – | (99) |
| Ail-brisiadau | – | – | (4) | (1) | – | (5) |
| Ail-ddosbarthu | – | – | – | – | – | – |
| Ail-ddatgan | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **–** | **(329)** | **(135)** | **(107)** | **–** | **(571)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2014** | **2,764** | **1,361** | **22** | **152** | **545** | **4,844** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2013** | **2,560** | **1,240** | **47** | **147** | **–** | **3,994** |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| **Wedi eu perchnogi** | **2,764** | **1,361** | **22** | **152** | **545** | **4,844** |

Mae prisiadau proffesiynol o dir ac adeiladau, sydd i gyd yn gysylltiedig â Thŷ Gwydyr, yn cael eu cynnal gan syrfewyr siartredig cymwysedig o Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) drwy ddefnyddio Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) a elwir 'y Llyfr Coch'. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrch 2013. Rhwng prisiadau proffesiynol, mae'r holl eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael eu prisio gan ddefnyddio mynegeion.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 6.a Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

| | Tir | Adeiladau | Peiriannau a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Taliadau ar Gyfrif ac Asedau wrthi'n cael eu Creu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2012–13** | | | | | | |
| **Cost neu brisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 2,584 | 1,176 | 140 | 80 | 67 | 4,047 |
| Ychwanegiadau | – | – | 9 | 156 | 151 | 316 |
| Ail-brisiadau | (24) | 118 | 3 | 1 | – | 98 |
| Ail-ddosbarthu | – | 218 | – | – | (218) | – |
| Ail-ddatgan | – | – | – | – | – | – |
| Trosglwyddo | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **2,560** | **1,512** | **152** | **237** | **–** | **4,461** |
| **Dibrisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | – | (228) | (74) | (80) | – | (382) |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | – | (44) | (29) | (9) | – | (82) |
| Ail-brisiadau | – | – | (2) | (1) | – | (3) |
| Ail-ddosbarthu | – | – | – | – | – | – |
| Ail-ddatgan | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **–** | **(272)** | **(105)** | **(90)** | **–** | **(467)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2013** | **2,560** | **1,240** | **47** | **147** | **–** | **3,994** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2012** | **2,584** | **948** | **66** | **–** | **67** | **3,665** |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| **Wedi eu perchnogi** | **2,560** | **1,240** | **47** | **147** | **–** | **3,994** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 7. Cyfalaf ac Ymrwymiadau eraill

Mae gan Swyddfa Cymru wariant Cyfalaf wedi'i gontractio ar ddiwedd y cyfnod adrodd ond heb achosi o £118,000. Mae'r ymrwymiad hwn yn gysylltiedig â gwariant cyfalaf ar swyddfa Swyddfa Cymru yn Llundain.

### 7.1 Ymrwymiadau o dan Brydlesi

### 7.2 Prydlesi gweithredol

Rhoddir ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn sy'n dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn yn y tabl isod, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y daw'r brydles i ben.

| | 31 Mawrth 2014 Adran Graidd £000 | 31 Mawrth 2013 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|
| **Mae'r ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| **Tir ac Adeiladau** | | |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 6 | 130 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 360 | 366 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 272 | 362 |
| **Cyfanswm** | 638 | 858 |
| **Eraill:** | | |
| Nid hwyrach na blwyddyn | 53 | 88 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | - | 53 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm** | 53 | 141 |
| **Prif Gyfanswm** | **691** | **999** |

Mae'r brydles tir ac adeiladau'n ymwneud â swyddfeydd dan brydles ar gyfer Swyddfa Cymru yng Nghaerdydd. Yn 2012-13, lluniodd yr Adran ddwy brydles ar wahân ar gyfer gwahanol loriau yn y swyddfa yng Nghaerdydd; un ar gyfer Swyddfa Cymru a'r llall ar gyfer y Comisiwn ar Ddatganoli.

Yn 2014-15, mae Swyddfa Cymru wedi dechrau ar gyfnod o rent rhad ar gyfer y brydles ac ar ôl cwblhau eu hadolygiad bydd y Comisiwn ar Ddatganoli yn terfynu eu prydles yn chwarter cyntaf 2014-15.

Mae'r prydlesi eraill ar gyfer offer swyddfa a phrydles ar gar Gweinidogol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 8. Offerynnau Ariannol

## 8.1 Categorïau o Offerynnau Ariannol

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014<br>£'000 | 31 Mawrth 2013<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau Ariannol** | | | |
| Arian parod | 9 | 181 | 389 |
| ***Benthyciadau a Derbyniadwyon < 1bl*** | | | |
| Derbyniadwyon eraill (crynswth) | 11.1 | 17 | 32 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol - cyfalaf | 11.1 | 67 | 59 |
| ***Benthyciadau a Derbyniadwyon > 1bl*** | | | |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol | 10 | 11,487 | 11,554 |
| **Gwerth ar bapur Asedau Ariannol** | | **11,752** | **12,034** |
| **Rhwymedigaethau Ariannol** | | | |
| ***Rhwymedigaethau Ariannol ar sail cost wedi'i hamorteiddio*** | | | |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol – cyfalaf | 12.1 | (11,554) | (11,613) |
| **Gwerth ar bapur Rhwymedigaethau Ariannol** | | **(11,554)** | **(11,613)** |

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu cyflawni drwy'r broses Amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae llai o ran mewn creu a rheoli risg nag a fyddai mewn corff heb fod yn un sector cyhoeddus o faint tebyg. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau am eitemau di-ariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran, ac felly ychydig iawn o risg marchnad, hylifedd a chredyd y mae'r Adran yn agored iddi.

Mae blaensymiau gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF) yn cael eu trin fel buddsoddiadau ac yn cael eu datgelu ar sail cost hanesyddol. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau gan y NLF a fenthycwyd ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gorfforaeth Datblygu Cymru yn wreiddiol. Cawsant wedyn eu pasio i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn y 1980au; ac yna i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan gafodd y DBRW ei ddiddymu ym 1998. Ar ôl diddymu'r WDA yn 2006 disgynnodd y cyfrifoldeb am ad-dalu'r prif swm a'r llog ar Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei godi ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru yn cael eu hildio i'r NLF. Mae balansau benthyciad sydd heb eu talu'n cael eu cynnwys o dan Daladwyon Masnachol ac eraill.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 9. Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2013 | 389 | 232 |
| Newid net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | (208) | 157 |
| Balans ar 31 Mawrth 2014 | 181 | 389 |
| Roedd y balansau canlynol ar gadw gyda: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 180 | 388 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **181** | **389** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 10. Buddsoddiadau

| | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|
| | **Benthyciadau wedi'u hariannu gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol** |
| | **£000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | 11,554 |
| Trosglwyddo | (67) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **11,487** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 11. Derbyniadwyon masnachol ac asedau cyfredol eraill

### 11.1 Dadansoddiad yn ôl math

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | | |
| Derbyniadwyon masnachol | | - | - |
| Derbyniadwyon TAW | | - | 22 |
| Adneuon a blaensymiau | | 5 | 3 |
| Derbyniadwyon eraill | | 12 | 7 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | | 11 | - |
| Rhan gyfredol y benthyciad NLF - llog a dderbyniwyd | | 131 | 132 |
| Rhan gyfredol y benthyciad NLF - cyfalaf | | 67 | 59 |
| **Cyfanswm derbyniadwyon** | | **226** | **223** |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | | |
| Adneuon a blaensymiau | | 4 | 13 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | | 25 | - |
| **Cyfanswm derbyniadwyon** | | **29** | **13** |

### 11.2 Balansau Rhyng-Lywodraethol

| | Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 |
| Balansau gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 210 | 219 | - | - |
| *Is-gyfanswm*: balansau rhyng-lywodraethol | 210 | 219 | - | - |
| Balansau gyda chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 16 | 4 | 29 | 13 |
| **Cyfanswm derbyniadwyon** | **226** | **223** | **29** | **13** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 12. Taladwyon Masnachol a rhwymedigaethau cyfredol eraill

### 12.1 Dadansoddiad yn ôl math

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | | |
| TAW | | 2 | - |
| Symiau treth a nawdd cymdeithasol eraill | | 58 | 66 |
| Taladwyon masnachol | | 385 | 50 |
| Taladwyon eraill | | 40 | 79 |
| Croniadau | | 766 | 522 |
| Rhan gyfredol y benthyciad NLF - cyfalaf | | 67 | 59 |
| Rhan gyfredol y benthyciad NLF - llog yn daladwy | | 131 | 132 |
| Symiau i'w cyflenwi o'r Gronfa Gyfunol ond heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn | | 181 | 389 |
| **Cyfanswm taladwyon** | | **1,630** | **1,297** |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | | |
| Benthyciadau NLF | 10 | 11,487 | 11,554 |
| **Cyfanswm taladwyon** | | **11,487** | **11,554** |

### 12.2 Balansau Rhyng-Lywodraethol

| | Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2013 £000 |
| Balansau gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 759 | 1,121 | 11,487 | 11,554 |
| Balansau gydag awdurdodau lleol | 5 | - | - | - |
| Balansau gydag Ymddiriedolaethau'r GIG | - | - | - | - |
| Balansau gyda chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachol | 2 | 1 | - | - |
| *Is-gyfanswm*: balansau rhyng-lywodraethol | 766 | 1,122 | 11,487 | 11,554 |
| Balansau gyda chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 864 | 175 | - | - |
| **Cyfanswm taladwyon** | **1,630** | **1,297** | **11,487** | **11,554** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 13. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | Costau Ymddeol yn Gynnar | Total |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2012 | 109 | 109 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | – | – |
| Darpariaethau nad oes eu hangen - wedi'u hadfer | – | – |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (20) | (20) |
| Datod disgownt | – | – |
| Balans ar 1 Ebrill 2013 | 89 | 89 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | – | – |
| Darpariaethau nad oes eu hangen - wedi'u hadfer | – | – |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (21) | (21) |
| Datod disgownt | – | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **68** | **68** |

Costau ymddeol yn gynnar yw'r symiau a delir i gyn–aelodau staff lle caniateir iddynt ymddeol yn gynnar o'r gwasanaeth sifil. Telir y symiau hyn naill ai fel taliadau misol nes byddant yn cyrraedd 60 oed, fel cyfansymiau neu fel cyfuniad o'r ddau. Mae ein Daprarwr Pensiwn (MyCSP) yn rhoi amcan o'r symiau y dylid eu talu i'r unigolion hyn a gwneud darpariaethau ar gyfer y symiau hyn yn ein cyfrifon.

## 13.1 Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llifau disgownt

| | Ymddeol yn Gynnar 2013-14 | Ymddeol yn Gynnar 2012-13 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 21 | 20 |
| Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 47 | 69 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | – | – |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **68** | **89** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 91 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## 14. Rhwymedigaethau Wrth Gefn a ddatgelir o dan IAS 37

Nid oes gan Swyddfa Cymru ddim rhwymedigaethau wrth gefn

## 15. Trafodion Partion Cysylltiedig

### Adrannau Cysylltiedig a Chyrff Llywodraeth Ganolog eraill

Mae Swyddfa Cymru yn ariannu Llywodraeth Cymru. Ystyrir fod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig y cafodd Swyddfa Cymru amryw o wahanol drafodion perthnasol â hi yn ystod y flwyddyn.

Hefyd, mae Swyddfa Cymru wedi cael nifer o drafodion sylweddol ag adrannau eraill y llywodraeth, y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bennaf a chyrff eraill y llywodraeth ganolog.

Nid oes dim trafodion â phartion cysylltiedig eraill i adrodd arnynt.

## 16. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 '*digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd*', ystyrir fod digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad yr awdurdodir y Cyfrifon i gael eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu. Dehonglir hyn i fod yr un dyddiad ag y caiff y Cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Nid oes dim 'Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd' sydd angen eu datgelu.**

## Tabl 1

| Bloc Cymru 2009-10 to 2015-16 | 2009-10 alldro £'000 | 2010-11 alldro £'000 | 2011-12 alldro £'000 | 2012-13 alldro £'000 | 2013-14 alldro £'000 | 2014-15 cynlluniau £'000 | 2015-16 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Cymru**(1) (2) | | | | | | | |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru**(3) | | | | | | | |
| Costau Gweinyddu Swyddfa Cymru | 5,567 | 5,074 | 5,099 | 5,501 | 4,385 | 4,849 | 4,347 |
| Swyddfa Cymru - costau eraill(3) | 42 | 43 | 34 | 57 | 43 | 60 | 60 |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru**(3) | 5,609 | 5,117 | 5,133 | 5,558 | 4,428 | 4,909 | 4,407 |
| Cyfalaf Swyddfa Cymru | 0 | 130 | 185 | 319 | 564 | 25 | 25 |
| **TGA Adnoddau + Cyfalaf Swyddfa Cymru**(3) | **5,609** | **5,247** | **5,318** | **5,877** | **4,992** | **4,934** | **4,432** |
| *llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth* | *-61* | *-227* | *-70* | *-72* | *-99* | *-130* | *-70* |
| **TGA Swyddfa Cymru** (4) | **5,548** | **5,020** | **5,248** | **5,805** | **4,893** | **4,804** | **4,362** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Mae'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol o ganlyniad i Clear Line of Sight.
(3) Yn cynnwys dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(4) Adnoddau + cyfalaf - dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(5) Yn ôl confensiwn mae cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) wedi'u mynegi ar ffurf adnoddau a chyfalaf llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth. Felly ni fydd swm y rhifau am adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn cyfateb i'r Terfyn Gwariant Adrannol: y gwahaniaeth yw dibrisiant a lleihad mewn gwerth.

## TABLE 1B

| TGA Llywodraeth Cymru a Chyfanswm Bloc Cymru | 2009-10 alldro £'000 | 2010-11 alldro £'000 | 2011-12 alldro £'000 | 2012-13 alldro £'000 | 2013-14 amcangyfrif o'r alldro £'000 | 2014-15 cynlluniau £'000 | 2015-16 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** (1) (2) (7) (8) | | | | | | | |
| Adnoddau Llywodraeth Cymru(3) | 13,752,801 | 14,021,910 | 13,902,986 | 13,892,880 | 14,474,150 | 14,220,895 | 14,309,391 |
| Cyfalaf Llywodraeth Cymru | 1,931,711 | 1,751,150 | 1,385,694 | 1,361,724 | 1,318,453 | 1,455,087 | 1,505,381 |
| **TGA Llywodraeth Cymru**(3) (7) | **15,684,512** | **15,773,060** | **15,288,680** | **15,254,604** | **15,792,603** | **15,675,982** | **15,814,772** |
| *llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth* | *-464,079* | *-407,253* | *-427,664* | *-511,778* | *-759,545* | *-506,394* | *-626,499* |
| **Cyfanswm Bloc Cymru**(4) (7) | **15,220,433** | **15,365,807** | **14,861,016** | **14,742,826** | **15,033,058** | **15,169,588** | **15,188,273** |
| **TGA Llywodraeth Cymru**(4) | **5,548** | **5,020** | **5,248** | **5,805** | **4,893** | **4,804** | **4,362** |
| **Cyfanswm Bloc Cymru**(4) (5) (6) | **15,225,981** | **15,370,827** | **14,866,264** | **14,748,631** | **15,037,951** | **15,174,392** | **15,192,635** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Mae'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol o ganlyniad i Clear Line of Sight.
(3) Yn cynnwys dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(4) Adnoddau + cyfalaf - dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(5) Yn ôl confensiwn mae cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) wedi'u mynegi ar ffurf adnoddau a chyfalaf llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth. Felly ni fydd swm y rhifau am adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn cyfateb i'r Terfyn Gwariant Adrannol: y gwahaniaeth yw dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(6) TGA Swyddfa Cymru + TGA Llywodraeth Cymru ar ôl didynnu dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(7) Mae ffigurau TGA am flynyddoedd alldro wedi'u haddasu i adlewyrchu newidiadau mewn cyllidebu a gafwyd wedyn.
(8) Mae alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 yn ffigur dros dro wrth ddisgwyl cwblhau'r archwiliad o'i chyfrifon.

## TABL 2

## Newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru rhwng 2011-12 a 2015-16 ers cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon 2012-13

| | 2011-12 £m Alldro | 2012-13 £m Alldro | 2013-14 £m Alldro Dros Dro | 2014-15 £m Cynlluniau | 2015-16 £m Cynlluniau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trosglwyddo rhwng Adrannau** | **15,288.680** | **15,294.892** | **15,491.798** | **15,627.707** | **0.000** |
| Interdepartmental transfers | | | | | |
| DFE: Hyforddi Athrawon | 0.000 | 0.000 | 0.168 | 0.168 | 0.000 |
| DCMS: Band Eang y Genhedlaeth Nesaf | 0.000 | 0.000 | 21.955 | 0.000 | 0.000 |
| MOJ: Tribiwnlys Cyfiawnder Gweinyddol | 0.000 | 0.000 | 0.042 | 0.100 | 0.058 |
| DWP: Budd-dal y Dreth Gyngor | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 5.200 | 0.000 |
| DECC: Tlodi Tanwydd | 0.000 | 0.000 | 7.792 | 0.000 | 0.000 |
| i'r Adran Iechyd: Sefydliad Cenedlaethol Gwyddoniaeth a Rheolaeth Fiolegol | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | -0.609 |
| Polisi Gwariant | | | | | |
| Canlyniad y Cylch Gwario 2013 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 15,722.514 |
| Cyfnewid Cyllidebau | 0.000 | 0.000 | 85.638 | 0.000 | 0.000 |
| Lleihad yng ngwerth Benthyciadau Myfyrwyr | 0.000 | 0.000 | 326.450 | 0.000 | 0.000 |
| Symiau Canlyniadol Barnett | | | | | |
| Datganiad yr Hydref 2013 | 0.000 | 0.000 | 0.575 | 21.877 | 77.370 |
| Cyllideb 2014 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 20.930 | 15.439 |
| Alldro Adrannol (tanwariant o'i gymharu â'r cynlluniau terfynol) | | | | | |
| Alldro Dros Dro 2013-14 | 0.000 | -11.605 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Alldro Terfynol 2013-14 | 0.000 | -28.683 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Amcangyfrif o'r Alldro 2013-14 | 0.000 | 0.000 | -141.815 | 0.000 | 0.000 |
| ***Is-gyfanswm*** | ***0.000*** | ***-40.288*** | ***300.805*** | ***48.275*** | ***15,814.772*** |
| **TGA Cyfalaf a TGA Adnoddau: Mehefin 2013** | **15,288.680** | **15,254.604** | **15,792.603** | **15,675.982** | **15,814.772** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.

## TABL 3

## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2012-13: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Alldro Terfynol £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA[1] | 15,076,759 | 15,200,719 | 15,015,495 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 405,773 | 497,722 | 417,758 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **15,482,532** | **15,698,441** | **15,433,253** |
| *Llai:* | | | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 107,299 | 107,299 | 107,299 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau a Neilltuwyd nad ydynt yn arian | 472,999 | 496,349 | 426,123 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 221,714 | 327,520 | 221,653 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **808,090** | **937,246** | **761,153** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **14,674,442** | **14,761,195** | **14,672,100** |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -886,492 | -941,907 | -941,907 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -944,000 | -1,003,000 | -1,003,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,830,492** | **-1,944,907** | **-1,944,907** |
| **Newid ym malans Cronfa Gyfunol Cymru a symudiadau mewn cyfalaf gweithio** | 535 | 44,535 | 59,354 |
| **Cash grant paid to Welsh Consolidated Fund** | **12,844,485** | **12,860,823** | **12,786,547** |

Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.

(1) TGA adnoddau a chyfalaf gan gynnwys dibrisiant.

## TABL 4

## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2013-14: Darpariaeth ac Amcangyfrif o'r Alldro

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Amcangyfrif o'r Alldro £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA | 15,491,805 | 15,934,418 | 15,792,603 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 317,132 | 402,883 | 304,012 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **15,808,937** | **16,337,301** | **16,096,615** |
| Llai: | | | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau a Neilltuwyd nad ydynt yn arian | 482,341 | 809,944 | 759,545 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 102,146 | 180,303 | 133,322 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **679,365** | **1,085,125** | **987,745** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **15,129,572** | **15,252,176** | **15,108,870** |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | -996,549 | -947,696 | -947,696 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -944,000 | -1,020,000 | -1,020,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,940,549** | **-1,967,696** | **-1,967,696** |
| Addasiadau Amseru | 325 | 198,075 | 341,188 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 100 | 100 | 100 |
| **Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,189,448** | **13,482,655** | **13,482,462** |

**TABL 5**
**Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2014-15**

| | Darpariaeth £'000 |
|---|---:|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA | 15,675,982 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 443,069 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **16,119,051** |
| **Llai:** | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 88,800 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 |
| Adnoddau a Neilltuwyd nad ydynt yn arian | 506,394 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 153,259 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **754,531** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **15,364,520** |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | -946,932 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -1,041,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,987,932** |
| **Addasiadau Amseru** | |
| Cynnydd/lleihad mewn derbyniadwyon a taladwyon | 270 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | |
| **CYFANSWM Y GRANT I GRONFA GYFUNOL CYMRU** | **13,376,858** |

ISBN 978-1-4741-0699-3